YR YMOFYNYDD.

Rhif 66.] CHWEFROR, 1853. [Cyf. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG—EI NODWEDDION.

Am Nodweddion Iolo—gellireu desgryflo yn nghyfieithad Dafis Castell Hywel, o bennillion Gray:

"Mynych gwelsom gyda'r wawr,
A'i frasgammau yn croesi'r caeau,
Ac yn torri'r gwlith i lawr,
A chan esgyn yn dra gwisgi,
Hyd y fron yn teithio'n dŷn,
I roesawi haul y dwyrain,
Yn y boreu, ar ben y bryn.

"Pan y byddai ei gwres gadarnaf,
Ar ein dae'ren hanner dydd,
Yn y gwaelod tawel isod,
Ar lan cornant yn y cudd;
Ar ei wyneb yno'n gorwedd,
Dan dew goeden caid y gwr,
Gan fud syllu ar ei ffrydiau,
Yn gwrando dwndwr ber y dwr.

"Gerllaw'r goedwig draw brydnawnau,
Rhodiai ar hyd y gwndwn glân,
Weithiau'n gwenu wrth fwmial canu,
Rhyw rigymmau wnai o gân;
Weithiau'n llibyn heb un englyn,
A lliw'r ddaeren ar ei rudd,
Gan drwm ofid, neu fawr gariad,
Wedi troi'n anobaith prudd."

TELYN DEWI.—31.

Deuwn yn awr i sylwi ychydig ar nodweddion ei feddwl. Mr. Malkin yn ysgrifenu yn 1806, a ddywed fod arfer ganddo yn nechreuad ei oes, o wneud penderfyniadau, y rhai a gadwai bob amser, er yn teimlo ac yn addef

y ffolineb neu'r anhawsder o honynt. Yr oedd rhai o honynt, er hynny yn ddoeth yn ei amgylchiadau ef. Mynegaf, eb efe, un neu ddwy o'r goreu a'r gwaethaf. Yr oedd yn gwybod y buasai ei dalentau barddonol yn tueddu dynion cydradd ag ef, i'w wahawdd i ymgyfeddachu a hwynt; a chan weled yr anghyssondeb rhwng eu cymdeithas hwynt a'i chwaeth ac a'i dueddiadau yntau, penderfynodd nad eisteddai byth mewn un tafarndŷ. Y mae ei arfer gyffredin o hunan-ymwadu i raddau anarferol, wedi gwneud y penderfyniad yn afreidiol i ddiogelu ei sobrwydd; a chan hynny, nid yw yn gwrthod myned i gyfarfod ac ereill mewn lleoedd o'r fath, os bydd y drafodaeth yn gofyn am hynny; ac aros am awr neu ddwy nes y bydd y gorchwyl wedi ei gyflawni—ond saif ar ei draed yr holl amser. Yn nechreuad ei oes gwahoddwyd ef yn fynych gan foneddigion y wlad, y rhai a hoffent ei glywed yn darllain ei farddoniaeth; ond barnodd nad oedd cymmaint o barch yn cael ei dalu iddo ef ac i'r gwesteiwyr ereill; ac yna penderfynodd nad adroddai ei bennillion ei hun byth mwyach. O herwydd hyn digiodd rai a ddymunent ddangos caredigrwydd iddo, ond yr oedd yn foddlon i roddi benthyg o'r ysgrifau, er fod perigl yr aent ar goll. Barnodd fod ei deulu wedi ymddwyn yn anfwyn tuag atto ar ei sefydliad yn eu plith; ac yna penderfynodd nad ai byth tu fewn i'w tai; ond y mae wedi anghofio ei eiddigedd, ac ymddiddana a hwynt yn eithaf siriol tu allan i'w drysau. Mewn adolygiad o'i benderfyniadau cafodd fod yr anghyfleusder yn fwy na'r lles; ac yna gwnaeth y penderfyniad doethaf yn ei holl fywyd—penderfynodd na wnai un penderfyniad yn ychwaneg—ac y mae wedi cadw hwnnw yn llawn mor ddiymdro ar lleill—(*Malkin's South Wales*, 1, 198—9). Y mae crybwylliad yn y rhagymadrodd i'r *Lyric Poems* am ei ferch glaf; yr oedd yn Llundain pan glywodd am ei chyflwr; ond penderfynodd yn y fan a'r lle na wnai nac yfed na bwytta cyn ei gweled; ac er ei fod 170 o filldiroedd o Drefleming, cyflawnodd ei benderfyniad, a bu yn agos i ladd ei hun o herwydd hynny.—(Mr. W.)*

Mewn amseroedd o gynhyrfiad cyffredinol, y mae bron pob dyn o deimladau bywiog, i raddau pell dan ddylanwad yspryd ei oes; ac yn ei adlewyrchu yn ei wagedd yn gystal ac yn ei rinweddau, mewn ffolineb yn gystal ag mewn doethineb. Yn nyddiau boreuol y bardd, yr oedd gan athronyddion Ffrainc ddylanwad helaeth ar feddyliau Ewrop—Voltaire, Rosseau, Diderot, a D'Alembert, oedd prif ser llenyddol diwedd y ddeunawfed ganrif; ac nid oedd un peth yn cael ei gyfrif yn iawn ac yn safadwy, ond a gymmeradwyid ganddynt hwy. Ac ym mhlith dychymmygion ereill a ddaethant i ben Jean Jacques Rosseau, un oedd fod *gwareiddiad* yn iselhau dynolryw, ac mai cyflwr naturiol dyn oedd byw yn wyllt yn y coed; danfonodd araeth yn cynnwys y golygiadau hyn at Voltaire, yr hwn a attebodd mewn gwawdiaith, ei fod wedi ei argyhoeddi, ac ei fod bron yn barod i fyned ar ei draed a'i ddwylaw; ond aeth Rosseau yn y blaen i ddifrio y celfyddydau, y gwyddorau, llenydd-

* Nis gallwn yn hawdd anghofio yr hyn a adroddwyd i ni am yr amgylchiad uchod, gan Mr. Rees Evans, Tonyrefail, hen gydymmaith ac hyfaill i'r bardd ac i ninau hefyd. Methodd Iolo, gyda'i holl ymdrech, gyrhaeddyd Trefflemin cyn bod yr angladd wedi cymeryd lle. Yr oedd y perthynasau a rhai o'r cymydogion heb ymadael a'r tŷ, pan ddaeth yr ymdeithydd blinedig i'w dref alarus. Wedi gweled pa fodd yr ydoedd, dywedodd Iolo yn y fan, nas gorphwysai am fynud, hyd nes caffai weled gwynebpryd ei ferch anwyl, yr hon yr oeddent newydd ei chladdu. Mewn canlyniad, aeth y cyfeillion gydag ef i'r fonwent (yr hon oedd yn ymyl y tŷ); cyfodwyd y *coffin* o'r bedd, a chafodd y bardd ei ddymuniad. Ac wedi gosod pob peth yn ol mewn trefn, dychwelodd i'w dŷ, i gymeryd cymaint o orphwysfa i'w gorph a'i enaid ag a ganiateid yn yr amgylchiadau.—Gol.

iaeth, ac athronyddiaeth, ac i esbonio rhagoriaeth y cyflwr naturiol yn y coed a'r creigydd: a chafodd y drychfeddyliau hyn gymmaint o afael ar feddyliau dynion, fel nad ydynt wedi diflannu yn hollol hyd y dydd heddyw. Ym moreu ei oes bu Iolo Morganwg, yn gystal a llawer ereill dan ddylanwad yr un gynddaredd; gwadai fod dyn yn "anifail cogyddol," a haerai ei fod mor addas i fyw ar borfa a da neu ddefaid, Yn Ngwynedd cafodd gydymaith o'r un farn, a buont eill dau yn *pori* am ddiwrnod cyfan, nes iddynt flino ar wyrdd-fwyd Nebucodonosor, a chwantu am fara a chaws. Yr oedd y bardd yn llawn mor barod i chwerthyn am ben ei ffolineb a neb arall, ac arferai rhai o'i gyfeillion ddodi cynffon wrth y chwedl, a dweyd i berchen y cae eu dodi yn y ffald, fel rhyw anifeiliaid crwydrol ereill!

Yr oedd y bardd yn arfer honni ei ddisgyniad oddiwrth deulu Oliver Cromwell; ac fel y deallir ba fodd yr oedd yn dangos hynny, gweler Waring, (t. d. 163), neu y *pedigree* canlynol:

WILLIAM AB IEVAN, disgynydd oddiwrth Cynfyn ab Gwerystan*, Arglwydd Cibwyr, ym Morganwg;
MORGAN AB WILLIAMS, o'r Eglwys Newydd, Morganwg, a briododd chwaer Thomas Cromwell, Arglwydd Essex, o'r hon y cafodd ddau o feibion.

JOHN WILLIAMS, (ei Etifedd), — RICHARD WILLIAMS, yr hwn a wnawd yn farchog gan Harri VIII, ac a orfu gymmeryd *surname*. Dewisodd enw ei fam, ac efe a wnaed yn SIR RICHARD CROMWELL (*alias*, Williams), o'r hwn y deilliodd

ROBERT CROMWELL (*alias* Williams), tad

OLIVER CROMWELL.

Yr oedd y teulu hyd deyrnasiad James I., yn galw eu hunain, "Cromwell *alias* Williams."

Dywedai Iolo ei fod yn disgyn oddiwrth John Williams, ac y gallasai brofi hynny trwy y cofrestrau plwyfol; ond nid oedd yn gwneud hyn er mwyn ymffrostio ei dadogaeth. Yn amser yr etholiad cyffredin, dygwyddodd dadleuaeth rhyngddo a Mr. Waring. Daliodd hwnnw fod disgyniad anrhydeddus yn dueddol i ddylanwadu yn lleshaol ar gymmeriad dynion; ond attebai Iolo, "Fy anwyl sir, gallaf olrhain fy llinach am amryw oesoedd, gallaf brofi fod llawer o'm cyndadau yn ddynion o radd uchel, o gyfoeth a gallu, ac yr wyf yn benderfynol i gyhoeddi y llinach i gyd, er mwyn dangos mai yr uchaf mewn bonedd oedd y gwaelaf mewn moesoldeb, ac mai y dynion mwyaf yn mhlith fy nghyndeidiau oeddent y dyhirod mwyaf, tuhwnt i bob cyfartaledd." Buasai hwnnw yn wawd-draeth rhagorol ar falchder llinachol, ond diflanodd y penderfyniad i'w argraffu gyda'r achos cynhyrfiol, ac nid oes gwybodaeth i'r llinach gael ei ysgrifenu—(Waring, 137).

Mewn dadleuaeth yr oedd yn dueddol i golli ei reol ar ei dymherau; a phan nad oedd yn ddigllon mewn gwirionedd, yr oedd tanbeidrwydd ei ymadrodd yn tueddu ei wrandawyr i feddwl ei fod. Pan gyffyrddid ag un o'i anwyl ddaliadau, cyfodai o'i eistedd yn syrth, ac yn fynych buasai ei fraich ysgynawl, ei ddwrn cauedig, ei lygad tanllyd, ei lais dyrchafedig, a

* Geilw Iolo ef yn Dywysog Powys; ond camsynied yw hyny: Bleddyn ei fab oedd y cyntaf o'r teulu, a fu yn Dywysog Powys.

tharawiad ei droed ar y llawr, yn cefnogi ei athrawiaeth, ac yn achosi braw yn y gwrandawr, os nad yn ei argyhoeddi. Yn un o'r nodiadau yn y *Lyric Poems*, y mae yn annerch "Y Pabau o bob enwad;" ond yr oedd un Pab yn cael ei adael allan, sef y bardd ei hun. Yr oedd ei babyddiaeth dderwyddol ef yn gyssegredig; a phe dywedasid gair yn ei herbyn, yr oedd yr atteb ffromwyllt yn barod, "Taw di a son, nid oes neb ond Beirdd Braint a Defod yn deall y pethau hyn." Ond gan fod Mr. Morgan Williams yn rhoddi desgryfiad mwy ffafriol o hono fel dadleuydd, nid yw ond tegwch imi gyfleithu ei sylwadau. "O'm cof fy hun," eb efe, "nid wyf yn alluog i ddweud ond ychydig, ac nid yw hynny ond cofiant ysgolfab. Pan ddeuai i ymweled ag Ab Iolo ym Merthyr, cyfodai hwnnw o'i sedd, a chymmerai law yr hen ŵr rhwng ei ddwylaw yntau, a 'fy machgen anwyl, sut wyt ti," fuasai'r attebiad. Tawelai yr ysgol, rhyfeddai yr ieueinc pwy oedd yr hen ŵr a'r wallet, a buasai yr henaf y sisial am y tebygolrwydd o gael diwrnod o chwareu. Yna byddai'r tê yn dod i'r bwrdd; nid yn hir yr eisteddent un bob ochr i'r tan cyn tarddu dadleuaeth, ac yna buasai y tê, y plant, a'r ysgol, yn cael eu hanghofio. Gyda phob parch i gof fy hen athraw, yr oeddwn yn barnu y pryd hynny, ac nid wyf wedi newyd fy marn etto, mae yr hen ŵr oedd yn fuddugoliaethus y rhan fynychaf; ac yr wyf yn cofio yn dda ddigon ein bod yn dweud wrth ein cyfeillion, 'y mae Mr. Williams yn ei cholli yn awr.' Yr oeddent eill dau yn wresog, ac eill dau yn angerddol; ond mor belled ac yr wyf yn cofio, yr oedd yr hen ŵr yn ddadleuydd meistrolaidd, yn berchen ar ffrwd diderfyn o eiriau, yn barod iawn i ddarganfod gwall, ac yn rhesymydd cadarn; a gellid ei ddesgryfio yn ngeiriau Goldsmith:

> 'In arguing too the parson owned his skill,
> For e'en though vanquish'd he could argue still.'

Pan ymwelai a Merthyr, cysgai noswaith neu ddwy yn y tai ffermydd cyfagos, ac yn ei plith Penyrheol ac Aberfan. Yr oedd yn syml yn ei ymddygiad, ac yr oedd groesaw iddo ym mhob man, gan nad oedd yn achosi un trafferth. Ei wely oedd cadair freichiog, a chlystog ar ford wrth ei ochr, ac yr oedd y *teapot* ar y pentan yn cyflawni ei ofyniadau. Dyma fel yr wyf yn ei gofio yn wastad yn nhŷ fy nhad, a bu yno bedair gwaith neu chwech. Y tro diweddaf, bu hir ddadl rhyngddo ef, fy nhad, a pherson arall, yn parhau hyd dri o'r gloch yn y boreu, a phan gododd y teulu yr oedd yntau yn yfed tê." Clywais ymhellach o ben yr un gwr, iddo glywed dadleuaeth rhyngddo a'r Parch. J. James, Gellionen, a'i dad, ac ar hen Domas Evan, o'r Gyfarthfa, yr hwn a gyfenwyd *Twm Evan Tilter*, ac a berchid gan bawb a'i hadnabyddent. Y testynau cyffredinol oedd Napoleon Bonaparte, William Cobbett, ac Ewyllys Rhydd. Gwrthwynebai y ddau gyntaf, ac hysbysir fod ganddo ddwsin o brenau bychain i brofi'r ail, y rhai a drefnid ar y bwrdd mewn ffurf i gyffyrddiad ac un o'r blaenaf achosu symmudiad pob un o'r lleill. Ei wrthddadleuwyr a dorrent y gadwyn trwy gymmeryd un o'r prennau allan, gan ddadleu dros anghenrheidrwydd, ac yna gwingai ynteu gan waeddu 'Peidiwch, peidiwch, yr ydych yn waeth na'r diawl.'" Adroddaf y chwedl, fel yr adroddir hi i mi, ond nid wyf yn ei deall.

Yr oedd yn dangos parodrwydd mawr i gyfansoddi barddoniaeth, ac adroddir enghraifft o hynny gan yr un gwr. Fel y dygwyddodd un diwrnod

fyned gyda chydymaith o Ferthyr dros y mynydd tu ag Aberdâr, trodd ei wyneb at Fan Uwch Denni, sef mynyddau Brycheiniog; a chan weled ei bod yn orchuddedig gan eira, datganodd yr Englyn canlynol yn y fan a'r lle:

"Gwisg wen am Fan Uwch Denni—a welaf
Dan niwl a goleuni,
Er oer yr aros eira arni,
Gwrthrych i Fardd—hardd yw hi."

Ond mewn llafar dirwystr, ac ymddiddan tawel, yr ymddangosai Iolo yn fwyaf manteisiol; ac y mae ei hyawdledd dan y fath amgylchiadau wedi ei ddesgrifio yn briodol iawn gan ei gyfaill Gwallter Mechain:

"Distawrwydd da ystyriaeth,
I wrando ar Iolo'r aeth,
Yn llefaru llif orwyllt,
Heb floesgni, ag egni, gwyllt."

Yr oedd yn moreu ei oes wedi crwydro cymmaint, wedi ymgymmysg a phob math o ddynion, ac wedi ymgyfeillachu a dysgedigion, hynodion, a llawer o foneddigion ei oes yn y brif ddinas, nes oedd ei feddwl yn llawn o wybodaeth rhywiog a buddiol; ni allai cydymaith Talleyrand, Franklyn, Belsham, Rees, Aikin, David Williams, a dynion ereill nodedig am eu dysg a'u dawn ymadrodd, beidio bod yn gyfaill diddanus; ond pan ystyrir fod grym y bardd yn ei dafod, ac yntau yn un o'r ffraethaf o ddynion, deallir fod groesaw iddo ym mhob man, a bod dynion gwybodus a synwyrol yn hoffi cydymddiddan ag ef. Nid oedd nemawr o destynau cyffredin yn ddieithr iddo; ar y rhan fwyaf o honynt yr oedd ganddo ryw beth i'w ddweud ag oedd yn werth ei wrandaw; a chan fod ganddo athroniaeth i ddynion synwyrol, traddodiadau a hanes ysprydion i blant, benywod, a phenweigion, a derwyddiaeth i ddysgyblion braint a defod, yr oedd ei gyfeillach bob amser yn dderbynol. Cyhoeddwyd cyfrol fechan gan Saunders and Otley, Llundain, yn 1839, dan yr enw, *The Vale of Glamorgan, or Scenes and Tales among the Welsh;* ac yn honno y ceir yr amlygiad helaethaf ar ymddiddaniaeth yr hen fardd, er y dichon nad yw yr cwbl "mor wired a'r Efengyl," Mewn un man (tud. 230), dywedir am dano, "Dan ddylanwad y groesaw gwresog a thê gwraig y tŷ, dechreuodd lefaru yn dra hwylus. Adroddodd amryw o ddigrif-eiriau, ac ymddiddanion pigog, a barnwyd hwynt oll yn rhagorol. Traethai Englynion hefyd ynghyd a hanes y bobl at ba rhai y cyfeirient. Gwnaeth un Englyn ar forwyn oedd a thwll yn ei hosan; arall ar wraig dafodrydd ynghyd a'r gwirion-ddyn ei gwr; ac arall ar fenyw front, yr hon a ysgydwyd mewn *blanket* gan y tylwyth teg, nes oedd goleuni'r lleuad yn dwyn i'r golwg ei holl ddirgelion, 'Rhag cywilydd Iolo,' ebai gwraig y tŷ, ond ai yntau yn y blaen i ddychanu rhyw hen feddwyn clebrog, a hen fenywod oedd yn llanw eu trwynau o *snuff*, nes oedd ochrau ei wrandawyr gwladaidd yn agos i ymrannu. Yna dadganai yr hen amser gynt, ac fel yr ymwresogai deuai ar draws y Saeson, pa rhai cyn y diwedd, a yrrid i annwn, a melldith ar eu hol. 'Och arnynt, plant alis y biswal.' Fel y byddai canol y nos yn agoshau, deuai Ellyllon, y Cyhiraeth, y Ganwyll Gorph, y Cribwylliaid, a'r Cwn-wybr, yn destunau naturiol; ac yna buasai Iolo yn ychwanegu arswyd at arswyd, nes byddai gwallt eu penau yn myned yn wrych unionsyth, a hwythau yn ofni eu cysgod ei hun.—(Waring, 138). Wrth fyned adre, yr oedd pob dylluan yn Gatws-wrach, pob goleuni yn Ganwyll Gorph, a phob

earreg wen yn un o ysprydion byd arall. Dygwyddodd fod un dyn ieuanc, ar ol gwrandaw ar Iolo hyd bedwar o'r gloch yn y boreu, a'i ffordd trwy gwm tywyll, lle'r oedd Ellyll yn arfer bod, ond yn lle un, gwelodd leng o honynt, ac fel *Tam o Shanter*, rhedodd am ei fywyd!—(Y Parch. D. R. Stephen, yn y *Merlin*). Ond ym mhlith dynion o uwchradd mewn synwyr a chymdeithas, ei destynau anwylaf oedd daliadau y Derwyddon, defodau y Beirdd, a rhagoriaeth barddonol y cynfeirdd Cymruaidd. Yr oedd yn ymhyfrydu yn yr athrawiaethau hyn, a'u drychfeddyliau perthynol; yr oedd y Derwyddon yn dduwiau teuluaidd iddo, defodau y beirdd yn nesaf at ei grefydd, ac yr oedd yn caru y cynfeirdd o ddyfnder ei galon. Ni flinai byth siarad am danynt, a phan fyddai ganddo wrandawydd astud, arllwysai ei holl enaid i'r testyn godidog." "Yr wyf wedi gwrandaw," medd Mr. Waring (tud. 11), "ar ei ddarlithoedd gorwyllt ynghylch yr hen feirdd Prydeinig, a melusder eu barddoniaeth, nes oedd enwau Taliesin a Llywarch Hen yn nofio trwy fy ymenydd fel gweledigaethau o gydgan gorphorol—a minnau yn dymuno am ryw ysprydoliaeth ddisyfyd—rhyw rodd tafodawl, imi gael meistroli eu iaith nerthol hwy."

Prysurwn yn awr tua'r diwedd. O bryd i bryd fel y bydd amser yn canniattau, cynnygaf ychydig o sylwadau ar y testynau canlynol, sef,—

I. *Teilyngdod Barddonol Iolo Morganwg—Hymnau—Lyric Poems, mesurau rhyddion.*
II. *Teilyngdod Hanesyddol y Bardd a'r Iolo MSS.*
III. *Derwyddiaeth Morganwg.*
IV. *Braint a Defod Beirdd Ynys Prydain.*
V. *Coelbren y Beirdd.*
VI. *Y Nod Cyfrin—Sylwadau ychwanegol.*

Wrth ymdrin a'r pynciau hyn dichon y bydd i mi draethu golygiadau gwahanol i ddaliadau yr hen Fardd a'i ddysgyblion; ond yma terfynir ymyraeth personol, ac o hyn allan ni fydd rhyngom ond gwahaniaeth barn yn unig.

"Mwy na ddygwch o'i rinweddau,
Na'i wendidau i oleu'r dydd,
O'r tywyllwch, a'r dirgelwch,
Lle gorweddan oll yn gudd;
Gan hyderu am iechydwriaeth,
A thrugaredd ryfedd râd,
O fawr haelder Duw'r uchelder,
Sy fel mwynder tyner tad."

GRAY—TELYN DEWI.

Ac yn awr terfynaf hyn o fuchdraeth gyda chyfieithad o eiriau Mr. Morgan Williams:—

"Dywedodd un o'r athronyddion Ffrengig—'I ddyn cyffredin y mae addysg; ond perchen athrylith a ddysg ei hun.' Gwelwn hyn yn cael ei arddangos ym mywyd Bardd Morganwg. Dan y manteision cyfyngaf daeth yn ddysgawdwr dwfn yn y Iaith Gymraeg—yn un o'r hynafiaethwyr dysgediccaf—yn fardd mewn dwy iaith—ac yn berchen gwybodaeth gyfrifol o'r Ffrengaeg a'r Ladinaeg, ac hyd yn nod ychydig o Roeg. Yn ychwanegol at y pethau hyn yr oedd yn hyspys mewn amaethyddiaeth fel y gwelsom, ac yn meddu gwybodaeth gyfrifol o ddaeardraeth swydd Forganwg. Deallai

gerddoriaeth; ac yr oedd wedi darllen yn helaeth yn llenyddiaeth wleidiadaidd ei ddydd. Pan yn ieuanc yr oedd wedi efrydu yn ddwfn y gwahanol gyfundrefnau o athronyddiaeth y meddwl; ac yr oedd yn gyfarwydd a'r holl bynciau dyrys o Dynghedfen, Ewyllys Rydd, Rhagwybodaeth Anfeidrol, Rhyddid a Rheidrwydd, a Sylwedd-der neu Ansylwedd-der yr Enaid. Barnaf hefyd ei fod yn hyddysg mewn Llysieuaeth, gan fod Southey yn cyfeirio atto yn y cymmeriad hwnnw :—

"Iolo, Old Iolo, he who knows—
The virtue of all herbs of mount or vale—
Or greenwood shade, or quiet brooklet bed;
Whatever lore of science or of song,
Sages, and Bards of old have handed down."—MADOC.

Gan ei fod yn meddu y fath wybodaeth rywiog a helaeth, dichon y bydd rhyw un yn barod i ofyn, paham nad adawodd ar ei ol ryw waith gorchestol mewn llenyddiaeth? A gallwn innau atteb, nad oedd yr astudiaethau ar ba rhai y treuliodd rhan mor helaeth o'i amser, yn dueddol i achosi gwaith o'r fath; ond pwy bynag a wybydd cymmaint o lafur a gafodd i olygu argraffiad yr *Archaeology*, a'r trafferth a gymmerodd i wirio cywirdeb ei ysgrifau, a gyfaddef iddo lafurio gyda diwydrwydd anghyffredin. Yr oedd ei gasgliad o ysgrifau, yn amser ei farwolaeth yn helaeth iawn; y mae'r gyfrol a gyhoeddwyd gan ei fab, fel dyfyniad o honynt, yn dangos y trafferth a'r ymchwil a gafodd yr hen fardd yn eu casgliad; ac y mae Archddeacon Williams (o Lanymddyfri), yr hwn a fu yn ddiweddar yn arolygu y gweddill o honynt yn meddiant gweddw ei fab, yn dweyd fod rhai o honynt yn dra gwerthfawr. Y mae llwyddiant Iolo yn profi hefyd, y dichon i feddwl a bwriad penderfynol i ennill gwybodaeth gyflawnu ei amcan yn ngwyneb pob rhwystr ac anhawsder; ac y mae ei fywyd yn ffurfio annogaeth rhagorol i bob dyn ieuanc, ac yn destun teilwng i'w efrydu. Wele saer maen isel, wedi gweithio wrth ei grefft rhan fawr o'i amser, yn dyfod mor enwog fel yr ymgymysgai a mawrion a chyfoethogion ei wlad, ac yn cael ymgyfeillachu a llawer o ddynion o ddylanwad a hynodrwydd. Bydded inni ychwanegu hefyd na chyfnewidiodd hyn efe. Trwy ei holl yrfa, yr un dyn syml, gwresog, ac annibynol oedd efe. Y mae dynion wedi ennill mwy o enw yn nghofrestr hanesyddiaeth; nid oedd efe nac yn ryfelwr, nac yn oresgynydd, nac yn llywodraethwr; ond yr oedd yn ngeirian y Bardd (Pope) yn beth llawer gwell—

'Gwaith arbenig Duw—RHINWEDDOL DDYN.'

Hyn ar air a chydwybod oedd Iolo Morganwg. Dichon fod rhai o'i bleidwyr, a ddymunasent i mi nodi ei rinweddau yn unig, i guddio ei wendidau, ac arfer dim ond canmoliaeth; ond gan mai hanesydd ydwyf ac nid bardd, nid yw gweniaith yn llafar gynnefin i mi. Dyledswydd hanesydd yw dweyd—"y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir." Felly y gwnaethum; sorred a sorro. Nid o'm dewis fy hun y cymmerais arnaf y gorchwyl. Buasai yn well gennyf ei adael ar ol, gan nad wyf yn cydfyned ac amryw o ddaliadau yr hen wr. Ond wedi cymmeryd y gwaith mewn llaw, ar daer gais Golygydd yr *Ymofynydd*, ymdrechais ei gyflawni yn gyflawn, yn gydwybodol, ac yn ddiduedd. Pa fodd y llwyddais, barned y darllenydd.

T. STEPHENS.

CYMREIGWYR ANGHYMREIGAIDD.

Syr,—Mae yn dda genyf weled fod fy ngofyniadau wedi tynu sylw un o'ch gohebwyr hyddysg; ac er nad ydwyf yn hollol gydweled ag ef, teimlaf yn ddiolchgar iddo am ei gynnyg i oleuo'r pwngc mewn llaw.

Gyda phob parch iddo, dymunaf ddywedyd nad ydyw ei ddifyniadau o waith y cynfeirdd yn cwrdd a chnewyll y ddadl. Ym mhob enghraifft a rydd efe, y mae'r testyn yn rhagflaenu'r ferf, os nad ydwyf yn camddeall yr hen enwogion—oblegid *anwybodus* ydwyf mewn gwirionedd: nid ydwyf am ddringo i gadair barn; chwychwi, Syr, a osodasoch y geiriau—"Cymreigwyr Anghymreigaidd," uwchben fy llythyr, nid myfi; ond yn y brawddegau a ddifynais i, y mae'r testyn yn dilyn y ferf. Nid ydwyf yn amheu priodoldeb y geiriau— "Gwŷr ni gili*ynt* rhag ofn gwayw;" na chwaith y geiriau— "*Ni chili*ant hwy *rhag ofn gwayw*." Ond yr ydwyf yn amheu cywirdeb yr ymadrodd.—"*Ni chili*ant y gwŷr *rhag ofn gwayw*;" oblegid yma y defnyddir rhagenw cyssylltiadol cyn nodi yr enw cadarn yn lle yr hwn y mae yr rhagenw yn sefyll.

Mae rhai o'r arddodiaid yn cymmeryd terfyniadau personol; ond ni ddefnyddir arddodiad rhagenwol o flaen ei enw cadarn. Ni ellir dywedyd— "Ni chilia'r gwŷr *rhagddo ofn*;" er y gellir dywedyd "*rhagddo*" yn lle "*rhag ofn*," ar ol i'r gair *ofn* gael ei ddefnyddio.

Gyda golwg ar y rhan flaenaf o lythyr B. C. D.—A ydyw ef wedi taro talcen yr hoelen? Mae'r terfyniadau *f, t, m, ch, nt*, yn cyfeirio yn eglur at y gwahanol bersonau; nid ydynt efallai ond rhagenwau ynglyn. Llawn ystyr *ydwyf, ydwyt*, &c., a dybir i fod *ydyw fi, ydwyt ti, &c.* O ganlyniad mae *efe ydynt* yn feius a chymmysglyd. Ond nis gellir haeru yr un peth am *myfi yw*, oblegid ei bod yn unol a theithi y Gymraeg, i ddefnyddio y rhagenw neu i beidio a'i ddefnyddio. "*Myfi yw y winwydden, chwi yw y canghenau.*" Yma ni a welwn *yw* yn dilyn rhagenwau o wahanol bersonau, a dymunaf reswm cyn y credaf fod yr ymadrodd yn groes i ieithwedd y Gymraeg. Ond y mae pwngc arall yn codi yma:—A ydyw testyn y ferf *yw* byth yn ei rhagflaenu? Ni wn i am un enghraifft ddiamheuol o hyn. Nis gwn chwaith am un enghraifft yn yr Ysgrythyrau yn yr hon y mae'r ferf *yw* yn cymmeryd terfyniad personol, oddieithr i'w thestyn fod yn adnabyddus eisioes.

Anwybodus.

Aberthau Dynol yn Otaheite.—Y mae yn hollol adnabyddus fod yr arferiad erchyll hwn o offrymu yr hil ddynol yn cael ei gario yn mlaen yn lled helaeth yn yr ynys hon, pan diriodd y cenadau yno gyntaf; ond nid oedd y ddefod yma yn hen iawn yn eu plith. Y dynion ag oedd yn cael eu dewis i'w hoffrymu ydoedd y rhai nad oedd ganddynt ond ychydig gyfeillion, neu y rhai ag oedd yn casâu yr offeiriaid paganaidd. Yr oeddent yn aml yn cael eu nodi allan amser maith cyn eu haberthu, ac wedi eu neillduo, yr oeddent yn cael eu galw, "Ta ata taboo," h.y., "Y dyn wedi ei gyssegru i'r duw." Etto yr oeddynt mor bell o ymgeisio am y fath anrhydedd, fel pan dybient fod yr amser i'w hoffrymu yn nesâu, yr oeddynt yn gyffredin yn ymdrechu dianc o'r gymmydogaeth. Ond os deuai y trigolion i wybod am y lle yr oeddent yn llechu, neu os arosent yn yr ardal yn ddifeddwl o'u perygl, yr oedd y man yr oeddynt ynddo yn cael ei nodi allan; ac yna yr oedd goruchwylwyr y deml yn cael eu danfon yn y nos i'w dienyddio, ac i ddwyn eu cyrff i'r Morai. Nid oes genym hanes fod neb yn cynnorthwyo y tlodion hyn, un amser, i wrthwynebu y rhai oedd yn eu llofruddio.—*Cylchgrawn.*

PREGETH Y PARCH. T. MADGE.

Mr. Ymofynydd,—Ar eich cais cymmerais y drafferth i gyfieithu pregeth Mr. Madge, yr hon a bregethodd efe yn Abertawe ar yr 21ain o Orphenaf, yn y flwyddyn, 1852. Ymddengys nad oes un o'ch gohebwyr, yn ol eich barn chwi, a all, gyda chynnorthwy y bregeth hon, ysgrifenu traethawd ar y ddadl a fydd mor adeiladol i'r Cymro uniaith ag a fydd cyfieithad o honi hi. Na ryfeddwch os cewch ereill o wahanol farn ac yn eu plith.

J. Jones, Aberdâr.

Y BREGETH.

Fy Mrodyr Christnogol,—Yr ydwyf yn bwriadu dangos yn y bregeth hon, fod iaith yr Ysgrythyr, a'r ffeithiau a adroddir yno—y ffeithiau eglur ac anamheuedig ac anamheuadwy a adroddir yno—yn anghyson trwyadl a'r golygiadau a dderbynir yn gyffredin am Dduwdod Crist; a'u bod yn ffurfio y tir goreu, cryfaf, a sicraf ar yr hwn y gellir gosod i orphwys yr athrawiaeth, fel yr ydym ni yn ei dal, o undod Duw. Yr ydwyf yn gwybod yn ddigon da, na eill ond ychydig, ag y sydd yn newydd pendant, gael ei ddwyn ym mlaen ar y cwestiwn hwn; geill ymddangos, gan hynny, i rai dynion, yn defnyddiad ofer o'u amser, i ail-adrodd rhesymau, a'r rhai y gellir cymmeryd yn ganiataol fod y rhan amlaf o honom yn berffaith gyfarwydd. Pa fodd bynnag mae ysbryd yr amseroedd y cyfryw fath, fel y mae angenrheidrwydd yn cael ei gosod arnom, os y mynnwn ein cael yn ffyddlawn, i osod allan eilwaith ac eilwaith, yr athrawiaethau ydym mewn gwirionedd yn eu dal, a'r profion a'r rhai y maent yn cael eu cynnal. Yr ydym yn cael ein galw mor aml yn elynion i'r ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint, nes ydyw yn gweddu i ni fod yn barod a'r moddion i wrthwynebu y cyhuddiad ac i ddangos ein bod yn sefyll ar sail Prophwydi, ac Apostolion, a Iesu Grist ei hun yn Bencongl-faen. Er mwyn ein hunain, hefyd, ac i fod yn fwy galluog i roddi rheswm am y gobaith sydd ynnom, i'r rhai sydd yn gofyn i ni yn ysbryd ymchwil caredig, y mae yn angenrheidiol i ni ar brydiau i adolygu y profion trwy y rhai y maent yn cael eu sefydlu a'u hargraphu mor effeithiol ar ein meddyliau, fel y gallont yn rhwydd ddyfod i'n cof, pa bryd bynnag y byddo yr amser a'r achlysur yn gofyn hynny oddiwrthym. Ac nac anghofier fod y fath achlysuron yn cofodi yn barhaus. O herwydd hyn, pa mor gynnefin bynnag y b'om yn barnu ein bod, a seiliau, a rhesymau ein ffydd, ni wnawn allan o le wrth ddyfod yn fwy adnabyddus fyth o hwynt. Ar hyn yr ydwyf yn argyhoeddedig, mai pa fwyaf adnabyddus y byddom a hwynt, mwyaf i gyd y teimlwn fod ganddynt, nid yn unig gymmeradwyaeth rheswm, ond awdurdod yr ysgrythyrau hefyd, eu bod nid yn unig yn cydgordio ag addysgeiadau natur, ond yn fwy ac uwchlaw y cwbl, a'r gwirionedd, megis y mae yn yr Iesu.

Mae y geiriau oddiar yr rhai yr annerchaf chwi yn awr yn cael eu cynnwys yn—

1 Corinthiaid viii. 6.—"*I ni nid oes ond un Duw y Tad.*"

Dyna y fath ydyw iaith yr Apostol Paul; ac yr ydwyf fi yn bwriadu dangos fod yr iaith hon i'w chymmeryd yn ei harwyddocäd gyfyng, eglur, a llythyrenol. Yr ydwyf fi yn bwriadu dangos mai athrawiaeth yr Ysgrythyrau, ac yn enwedig Ysgrythyrau y Cyfammod newydd ydyw, mai un yw Duw, sef, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist—un, fel ag yr ydym yn gyffredinol yn ei ddeall—ac na all un bod arall honni hawl mewn cydraddoldeb ag ef, nag i fod yn deilwng o'r addoliad crefyddol goruchaf hwnnw, yr hwn sydd yn ddyledus yn unig i Frenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, y Bendigedig a'r unig Bennaeth, yr hwn ni welodd neb ac nis gall ei weled.

Wrth brofi y gosodiad hwn, mi appeliaf yn gyntaf at iaith redegog gyffredinol yr Ysgrythyr, ac yna at rai ffeithiau y mae yr Ysgrythyr hynny wedi eu dadguddio i ni.

Pa beth a ddywedaf am iaith yr Ysgrythyr? A oes rhyw gwestiwn mai rhediad ei llais, o ddechreu Genesis i ddiwedd Datguddiad, ydyw, mai un yw Duw—un Bod didarddiad, anymddibynnol, anrhanedig? Mae y testynau ynddynt yn cyhoeddi y gwirionedd hwn, mewn geiriau eglur, diddaufeddwl, mor aml, fel y byddai llawer mwy o amser nag a ganiattawyd i'r bregeth hon yn gyfan-gwbl ry fyrr i'r cyfeiriad lleiaf attynt. A rhoddi heibio, y cwbl a ddywedir, ac a ddywedir mor aml a phwysig ar y cwestiwn hwn, yn yr Hen Gyfammod (Testament) pa beth ydym yn ei gyfarfod yn y newydd? Pa beth a ddywedodd Crist? Pa beth a ddywedodd ei Apostolion ef? Gallwn fyned ym mlaen gan wysio testyn ar ol testyn (nes y byddai hyd y nod eich amynedd wedi darfod) yn y rhai y dywedir mai y Tad ydyw yr unig Dduw—yr unig wir Dduw—yr unig ddoeth Dduw—a lle y dywedir i Iesu Grist dderbyn ei holl allu a'i awdurdod oddiwrth y Tad; ond nid oes achos i hyn. Nid oes neb yn gwadu hyn, ac ni all neb. Nis gall neb fod heb wybod (ag sydd ganddo ryw ychydig wybodaeth beth ydyw cynnwysiad y Cyfammod newydd), am y dywediadau syml, ac am a geir yno, nad oes ond un Duw—y Tad, yr hwn sydd uwchlaw pawb, a thrwy y cyfan, ac yn y cyfan. Mae yn llafaru ym mhob pennod. Mae yn anadlu braidd ym mhob adnod. Nid ydyw yn gofyn ymresymiad llafurus i brofi mai felly y mae. Mae yn agored i olwg pob un, os egyr ei lygaid i'w weled. Pa fodd bynnag, er hyn oll dywedir gan yr union-gred, a enwir felly, fod yr un Ysgrythyrau, y rhai ydynt yn dysgcu Duwdod y Tad yn unig, yn dysgcu Dduwdod y Mab. Mae yma, o leiaf mewn ymddangosiad, ddau osodiad gwrthddywediadol. Os ydyw y Tad yn Dduw, a'r unig Dduw, pa fodd y gall y Mab fod yn Dduw hefyd? Nid oes dau Dduw. Mae hyn yn cael ei addef gan bawb. Pa beth gan hynny ydyw ystyr y gosodiad fod Crist yn Dduw yn gystal a'r Tad? Mae dywedyd nad oes ond un Duw, a chwedin ychwanegu fod y Tad yn Dduw, a'r Mab yn Dduw, a chymmeryd y geiriau yn eu hystyr eglur, yn gymmaint o wrthddywediad ag a ellir ei roddi mewn iaith. Nawr pa beth ydyw yr eglurhäd a roddir i'r gwrth-ddywediad ymddangosiadol hwn? Gan, fel yr addefir, na all fod dau Dduw; pa fodd, gallwn ofyn i frawd iawn-gred, pa fodd yr ydych chwi yn egluro yr olygfa anamgyffredig *(phenomenon)* fod Iesu yn Dduw yn gystal a'r Tad, heb gamwri i'r egwyddor o unoliaeth Duw? Rhaid fod gennych ryw ffordd i wneuthur hyn—pa beth ydyw y ffordd honno? Mae ef yn atteb, hon ydyw hi. Mae tri pherson, neu wahaniaethad yn y natur ddwyfol, a elwir bob un—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; ac y mae y tri hyn yng nghyd yn gwneuthur i fynu un Duw. Neu, a llafaru mewn geiriau mwy cyffredinol—mae Crist yn Dduw trwy rinwedd undeb y Duwdod a'r dyndod. Trwy fabwsiadu y farn hon am undeb Duw a Christ yr ydym yn cael allwedd, meddai ef, yr hon sydd yn datgloi, ac yn gwneuthur yn amlwg i ni ystyr y geiriau hynny, ydynt yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn gosod allan îs-raddau y Mab i'r Tad; gafodd y natur ddynol, a'r un Ddwyfol eu huno yn y fath fodd a'u gilydd ag i wneuthur yr un person Crist, ac am hynny yr ydoedd ar yr un pryd yn Dduw ac yn ddyn.

Nid ydwyf yn petrusu i ddywedyd am yr athrawiaeth a eglurir yma ei bod yn un sydd dan y cyhuddiad o ammhosiblrwydd. Os y gallaf fod yn sicr am un peth sydd yn perthyn i'r natur ddwyfol, yr ydwyf yn sicr fod y fath athrawiaeth yn gyfeiliornus. Oblegid pa beth a feddylir wrth y dywediad fod Duw wedi dyfod yn ddyn, neu wedi cymmeryd arno natur

dyn? A all yr Hollalluog gyfyngu ei hun o fewn terfynau ehangder lle? A all yr Hollalluog roddi heibio ei hollalluogrwydd? A all yr Hollbresennol ymddihatru o'i hollbresennoldeb? Am hynny ni all ddyfod yn ddyn, neu gymmeryd arno natur dyn, oblegid meidrol, ac anwybodus, a gwan yw dyn, a byddai yn anraslondeb yn gystal ag unfyd i ddywedyd y gall Duw fyth fod yn gyfannog o'r fath briodoleddau a chynneddfau. Ac ni all y meddwl dynol a dwyfol gael eu huno yn y fath fodd ag i wneuthur un person. Mae hyn etto yn cynnwys gwrth-ddywediad, ac nid ydyw gwrth-ddywediadau i'w gollwng i mewn o fewn cylch ein cred. Myfi a allaf yn rhwydd ddeall y gall y meddwl dwyfol gael ei ddwyn i gymmundeb agos a chyfarwydd a'r meddwl dynol. Myfi a allaf gredu y gall fod y meddwl dwyfol yn bresennol i'r meddwl dynol yn y fath fodd, ag i beri teimlo y presenoldeb hwnw mewn modd neillduol ac anghyffredin. Myfi a allaf dychymmygu y gall meddwl Duw weithredu ar feddwl dyn yn y fath fodd a'i wneuthur ef yn beiriant *(organ)* ac offeryn ei ddoethineb a'i allu. Ac yr ydwyf yn credu fod cyfrannogiad *(communication)* neu gymmundeb o'r fath hyn wedi bod rhwng Duw a Christ. Peth ydyw ag y mae ein Harglwydd ei hun yn ei haeru, ac i mi mae ei haeriad ef yn ddigon. Ond nid ydyw efe yn dywedyd —nid ydyw yr Ysgrythyr mewn un man yn dywedyd—ei fod ef a'r Bod Goruchaf wedi cael eu huno a'u gilydd yn y fath fodd ag i ffurfio un person. Ac y mae y credoau sydd yn dywedyd hynny, yn dywedyd yr hyn sydd yn ammhossibl pendant. Mae maintiwmio y gall y natur ddwyfol ac un ddynol gael eu huno y naill a'r llall, hynny ydyw, y gall Anherfynolrwydd a therfynolrwydd, Hollwybodaeth ac anwybodaeth, Gallu diderfyn a gallu terfynedig, fodoli yng'hyd yn yr un person, neu gael eu dywedyd am yr un bod, yn osodiad, raid gael ei wrthod yn uniongyrchol fel peth hollol anghredadwy, cyn gynted ag y deallir ystyr y geiriau. Ni ellir byth gydag un cymmwysder briodoli cynneddfau, y rhai ydynt yn groes y naill i'r llall, ac un o'r rhai hynny yn wadiad *(negation)* o'r llall, i'r un person.

Ni all dim, yr ydwyf yn meddwl, fod yn fwy eglur i neb a gymmero i fynu ac a ddarlleno yn ddiragfarn hanes Crist, fel y mae wedi ei adrodd gan yr Efengylwyr, nag mai hanes un ydyw, yr hwn, yn lle honni fod ganddo hawl mewn bywyd anymddibynnol, sydd bob amser yn priodoli ei holl ddoethineb a'i allu i Fod uwch nag ef ei hun. Nid oes eisiau gwysio adnodau neillduol yn dystion *(quote particular passages)* i brofi hyn, oblegid y maent wedi eu gwasgaru dros y Cyfammod Newydd (Testament) i gyd.

Nid i ddangos pa mor aml a nerthol ydyw iaith yr Ysgrythyr o du Undod Duw yn yr ystyr fanylaf (oblegid nis gellir gwadu hyn) ydyw yr yrfa yr ydwyf yn amcanu ei dilyn, ond fy amcan ydyw profi ei bod yn annichonadwy, ïe, dywedwn, yn ammhosibl i gysoni y fath iaith a'r athrawiaeth o Dduwdod Crist, fel ei derbynir yn gyffredin. Yr ydwyf yn gwybod fod y rhai sydd yn ei dal yn barnu fod y fath gyssondeb wedi ei gyflawni, ond yr ydwyf fi yn mantiwmio nad ydyw, a rhagor na hyn, yr ydwyf yn haeru fod y ffordd yn yr hon y cynnygwyd hyn—a'r ystyr y mae y rhai ydynt yn dal yr athrawiaeth hon yn cael eu rhwymo i roddi i iaith Crist, yn ddigon o honi ei hun, i'w damnio hi. Yr ydwyf yn dywedyd fod yr ystyr a roddir ganddynt i dywediadau yr Efengylwyr, ac yn enwedig i eiriau Crist, mor anghenfilaidd, mor wrthryfelgar yn erbyn deall cyffredin, mor groes uniongyrchol i'w meddwl, ag i gyffroi yn fy meddwl i y rhyfeddod mwyaf, fod gan neb ddigon o ryfyg i'w gynnig. Sylwch am eiliad pa fodd y mae yr Iesu yn llafaru am dano ei hun:

"Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan * * * Canys nid ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hun, onid ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i. Ni adawodd y Tad fi yn unig; oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sy foddlon ganddo ef; ac nid wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn. Eithr yn awr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirioneddl, yr hyn a glywais i gan Dduw. Ond y Tad yr hwn a'm hanfonedd i, efe a roddes orchymmyn i mi, beth a ddywedwn a pha beth a lefarwn. Os cedweh fy ngorchymmynion, chwi a arosweh yn fy nghariad, fel y cedwais i orchymmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Eithr am y dydd hwnnw a'r awr ni wyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad. Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau, a'm Duw i, a'ch Duw chwithau. Oblegid y mae fy Nhad yn fwy na myfi."

Pa fodd y mae hyn oll, a llawer yn ychwaneg o'r un natur, mor eglurhaol o'i ymddibyniad ar, a'i israddolrwydd i allu o uwch, i gael ei gysoni a'r athrawiaeth ei fod ef ei hunan yn Dduw? Yn y modd hyn yr attebir. Yr ydoedd dwy natur wedi eu huno yn ei berson ef, yr un ddynol a'r un ddwyfol, a'r geiriau a ddygwyd ym mlaen uchod a lefarwyd ganddo fel dyn ac nid fel Duw. Nawr a chaniatau posiblrwydd y natur ddwyfol a'r un ddynol yn yr un person (yr hyn pa fodd bynnag yr ydwyf yn mantiwmio sydd yn anhosibl), ni allaf ganiatau i un person i roddi y fath esboniad i eiriau ein Harglwydd a'r un a enwyd yn awr—esboniad a'i darostyngai dan y cyhuddiad ei fod yn ddau-feddyliog, ac yn gochel perygl, ac ni allai dim fod pn fwy atgas gan ei holl natur na hynny. Yr ydych chwi—mi allwn ddywedyd wrth y fath ysboniwr o'i eiriau—yr ydych chwi yn rhyfygu, er mwyn eu cyssoni hwynt a'ch barn ragfarnllyg eich hun, yn haeru fod ein Harglwydd yn meddwl wrthynt yr hyn sydd yn groes hollol i'w hystyr eglur. Pa le y mae eich awdyrdod i wneuthur y fath beth? Pa le y rhoddodd Crist yr awgrym lleiaf fod yr hyn ydoedd ef yn ei ddywedyd i gael ei ddeall felly? Os nad ydyw ei awdyrdod ef gennych i hynny, yna y mae cyfiawnder i garacter yr Iachawdwr yn gofyn gennyf fi i'w wrthod yn drwyadl ac uniongyrchol. Pe buasai wedi deilliaw oddiwrth un dyn ag nad ydyw yn Gristion, mi a'i galwaswn yn ddibetrusn yn enllib trwyadl. Gan ei fod yn dyfod oddiwrth gredinwyr diragrith mewn Cristnogrwydd, yr ydwyf o gwrs yn eu rhyddhau hwynt o'r fath fwriad, ond nis gallaf eu rhyddhau am eu bod yn ymfoddloni yn rhy rwydd, ar ddull o ysbonio geiriau ein Harglwydd, yr hwn sydd mor wrthwynebol union-gyrchol i'w hystyr blaen a naturiol, ac mor gwbl groes i'w garacter ef, yng ngeneu yr hwn nid oedd twyll, yr hwn bob amser ydoedd yn llefaru yn gyhoedd wrth y bobl—"ac yn ddirgel ni ddywedais i ddim." Hyd y nod pe buasai yn feddiannol ar ddwy natur; meddwl ei fod yn eu defnyddio yn y fath fodd ag i ddywedyd heb ddarnguddio, na wyddai hyn, ac na allai wneuthur hynna, gan feddwl yn unig na allai ei wneuthur, ac nad ydoedd yn ei wybod, fel yr oedd yn ddyn, er y gallai ei wneuthur, a'i fod yn ei wybod fel yr ydoedd yn Dduw sydd farn, yr hon, fe allai un feddwl, ni ofyn ond yn unig i gael ei gosod allan yn eglur, er cyfarfod a chondemniad cryf ac union-gyrchol.

Rhaid i mi ddywedyd drosof fy hunan, ei bod yn amhosibl i mi i gredu mai dyna y fath beth ydoedd meddwl yr Iesu, heb iddo ef ei hunan i dywedyd felly. Yn ymddifad o'r cadernid hyn, ni allaf, gydag un parch i ddiragrithrwydd a gwirioneddl, i dalu y sylw lleiaf iddi. Os oes rhyw ffordd

arall i egluro iaith Crist, yr hon a ellir feddwl sydd yn gyson a'r farn mai y Duw Goruchaf ydyw ef, yr ydwyf fi yn barod i wrando arni, ond ni allaf wrandaw ar yr un a grybwyllwyd ginnau fach, na allaf am un eiliad; oblegid y mae yn dyfod attaf fel arlwyad *(expedient)* a dychymmygwyd yn gyfrwys i gynnal i fynu osodiad anwyl, ac felly yn un i'w gwrthod a'i gwadu. Y casgliad, gan hynny, i'w dynnu oddiwrth iaith yr Ysgrythyr, ac yn fwy neilltuol oddiwrth un ein Harglwydd ei hun ydyw, nad ydyw ef ddim yn Dduw, yn ystyr gyfyng a phriodol y gair, ond yn un, er yn dal cymmundeb uchel ac agos a Duw, sydd etto yn ymddibynnol arno ac yn îs nag ef, yn derbyn oddiwrtho ef ei holl awdurdod a'i holl gynysgaedd.

Fy ngosodiad nesaf ydyw, fod rhai ffeithiau yn cael eu hatgofio yn yr Ysgrythyrau, a'r rhai y mae yr athrawiaeth gyffredin o Dduwdod Crist yn anghytuuol trwyadl ac anghymmodlon. Mae yn gwbl adnabyddus fod yr oruchwyliaeth Iuddewig, nid yn unig yn dysgeu mai un Duw sydd, ond yn bendifaddau nad oes un Duw ond un. Yn gytunol a hyn dyma ydoedd hen ffydd yr Iuddewon, ac felly y mae yn awr. Maent yn credu yn awr, megys yr oeddent yn credu o'r dechreu, mai un bod, ac un person yw Dnw, ac yn unol a hyn y mae eu haddoliad hwy. Yr ydoedd ac y mae yn cael ei gyfyngu i un gwrthrych, ac un gwrthrych yn unig. Yr ydwyf yn dywedyd hyn fel *fact*, sylwch; ac oddiar hon yr ydwyf yn ymresymmu fel hyn. Os ydoedd y golygiadau y rhai ydoedd yr Iuddewon yn eu dal yn amser ein Iachawdwr am undod Dnw, a gwrthrych addas addoliad dwyfol yn ammherffaith a diffygiol—os oeddent mor bell fyr oddiwrth y gwirionedd, ag y dywedir i ni yn awr eu bod, a fuasai Crist ddim yn rhoddi rhyw awgrymiad am y byrdra? A fuasai yn foddlon i fyned heibio iddo mewn distawrwydd hollol? Ond nid yn unig, efe a aeth heibio iddo fel hyn—nid yn unig ni ddywedodd air, ac ni wnaeth ddim i gyweirio'r camsyniad, os oeddent mewn camsyniad, ond yr ydoedd yr iaith a arferodd ef yn tueddu yn gryf i'w nerthu a'u sefydlu hwynt yn yr argyhoeddiad yr oeddent ynddo. Mae mor bell oddiwrth awgrymmu fod un ystyr arall i gael ei roddi i ciriau Moses amgen na'r un a roddai yr Iuddewon bob amser iddi, fel y mae mewn gwir yn ei ail-adrodd, ac yng ngeiriau eu deddfroddwr ei hun, gan ddywedyd—"Clyw, o Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw." Mae ef yn ei roddi ar dalcen y gorchymmyn cyntaf, fel y gwirionedd mawr ar yr rhwn yr ydoedd y gorchymmyn hwnnw wedi cael yn addas ei sylfaenu. Er cadarnhad ychwanegol o'r un pwngc, mi fynnwn hefyd ddwyn ar gof i chwi yr ymddiddan a gymmerodd le rhwng ein Harglwydd â'r wraig o Samaria. Gan gyfeirio at bobl y genhedl, i'r hon yr ydoedd hi yn perthyn, y mae ef yn dywedyd—"Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch; ninnau, gan osod ei hunan yn un o'r rhif—ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom; canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon." Y mae yn ychwanegu—"Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd."

Nawr pe buasai yr Iesu yn gwybod am dano ei hun, ei fod yn gystadl a'r Tad, yn deilwng o'r addoliad crefyddol pennaf, a fuasai ef, a allasai ef, lefaru am dano ei hun yn y modd y gwnaeth yma? A fuasai ef yn ymfoddloni ar ddywedyd fod yr Iuddewon yn iawn wrth ddal yr athrawiaeth o Undod Duw, ac mai yr addolwyr iawn ydoedd y rhai oeddent yn addoli y Tad? Wrth gwrs ni allaf fi ddywedyd dim am yr argraph, a all y ffaith hon ei gael ar feddyliau ereill; ond y mae yn dwyn argyhoeddiad i'm

meddwl i, yr hwn sydd braidd ddim yn llai na sier, nad oedd gan Grist fwy o feddwl, ei fod ef ei hun yn Dduw, yn ystyr fanylaf y gair, nag oedd gan y wraig a'r hon yr ydoedd yn ymddiddan.

Yr ydwyf yn awr yn myned yn y blaen i nodi ffaith arall yn arwain i'r un casgliad. Yr ydym ynte yn darllen yn yr Efengylau, i Ysbryd Duw ddisgyn ar yr Iesu yn union-gyrch ar ol ei fedydd. 'Nawr, pa fodd y gallwn gysoni y fath ddywediad a hyn a'r athrawiaeth o'i Ddwdod Goruchaf! Dywedir wrthym yn y duwiniaeth boblogaidd fod y natur ddwyfol a dynol wedi eu huno a'u gilydd, ac yn gwneuthur yr un person Iesu i fynu. Os felly beth oedd diben disgyniad yr Ysbryd Glân, y rhoddiad o ddoethineb a gallu hwn? Os ydoedd yr Iesu eisioes yn gyfrannog o'r Duwdod, pa eisiau ysbrydoliaeth oddiuchod ydoedd? Gan ei fod yn feddiannol ar natur ddwyfol, a pha allu o fwy y gallai gael ei wisgo, a pha ddoethineb o fwy y gallai gael ei gynysgaeddu, a pha awdurdod mwy llywodraethol y gallai gael ei amdoi? Mae'r ffaith ei hun, fod egluriadau yn cael eu tywallt i lawr arno oddiuchod yn barotoadol i ddechreuad llafur ei anfoniad, ac i'w addasu at y gwaith mawr i'r hwn yr ydoedd i ymroddi, yn brawf amlwg nad bod anymddibynnol ydoedd, ac am hynny, nad y Bod Goruchaf ydoedd.

(I'w barhau).

SYLW AR "GWYN YR ALLTYD."

(*Rhif.* 22, *Mehefin*, 1849).

Mr. Gol.—Canniatewch imi ddywedyd wrthych yn hyf nad ymddangosodd i mi etto ddim ag sydd a'r tuedd leiaf ynddo, i warthruddo cymmeriad eich Misolyn, ond yn unig ei anystyriaeth o "Gwyn yr Alltyd;" ac nis gallaf ond eich cyhoeddi chwi, Syr, yn euog o fai, o herwydd ar ddiwedd ei ysgrif, cyfeiria "Lleng" attoch yn bersonol, trwy ofyn "Beth debygwch chwi, Syr, a ydyw'r ymddygiad uchod yn deilwng o'r Efengyl ai nad yw?" Ond darfu i chwi fel eich Gohebwyr, ymddwyn tuag at "Lleng," yn gyffelyb ag yr ymddygodd y Lefiad tuag at yr un a syrthiodd ym mysg lladron, sef ni ddarfu i chwi wneud sylw o hono ef, trwy estyn iddo ddiddanwch a dangos iddo ymysgaroedd a throsturiaethau, yr hyn a weddai i'r Saint yn ol llythyr Paul at y Philippiaid, pennod ii. ad. 1; er ei fod yn disgwyl wrthych dros ysbaid dwy flynedd a hanner.

Ond er cyflawni fy nyledswydd fel Cristion, ymdrechaf estyn cyssur a diddanwch i'm brawd "Lleng," trwy ddisgrifio ymddygiad y gymdeithas y perthynai iddi yn anheilwng o Grist a'r Apostolion, neu mewn geiriau eglur, mai lladron ysprydol oedd y gymdeithas y perthynai iddi; ac o ganlyniad, mai braint anrheithiol oedd iddo gael ei ddiarddel ganddi. Ond cyfiawn tuag at y cyfryw fyddai i mi brofi fy haeriad, sef, mai lladron ysbrydol oeddent.

Dichon y bydd rhyw un yn barod i'm beio am eu cyfenwi yn lladron; ond attolwg, Mr. Gol., pa enw, meddwch chwi, sydd briodawl i'r sawl a honant feddiant o awdurdod, yr hwn awdurdod nis rhoddwyd iddynt erioed gan Grist—yr hwn yw pen yr Eglwys—awdurdod, fel yr honnir, i esgymmuno brawd neu chwaer o herwydd ei syniadau crefyddawl? Gallaf ddywedyd, nad amcan y Tad, trwy'r Iesu, oedd traddodi ei blant o ddynolryw i Satan

ac i'r byd, eithr "eu dwyn o feddiant Satan, a'u gwneuthur yn bobl briodol i Dduw," ni darfu yr Iesu erioed draddodi y camsuniawl a'r gwan ei feddwl i Satan. Pe felly, ni buasai ganddo un ddafad yn ei gorlan. Ond edrychwch ar ei ymddygiad caredig ef. Ei ddysgyblion a ymholent yn eu plith eu hunain, pa un o honynt oedd fwyaf. Gwyddai'r Iesu am Judas mai efe oedd yr hwn a'i bradychai ef. Ond a ddarfu iddo ei draddodi i Satan? Na ddo; eithr efe a ddwed yn ei weddi syml wrth y Tad, mai ei golli a wnaeth. Ioan xvii, 12, "Ac ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth." Gallesid nodi Pedr, iddo ei wadu; a'r yspryd dialgar hwnw a feddianai ei ddysgyblion pan y chwenychent dân o'r Nefoedd i losgi'r Samariaid. Ond a draddododd efe'r un o honynt i Satan? Naddo.

Sylwn etto ar ymddygiad Apostolion yr Iesu. Afreidiawl fyddai nodi yr un o honynt; oddieithr Paul, o herwydd mai ar ei siampl ef y sylfaenir y ddefod oddiar 1 Corinthiad, v. 4, 5. Ond cyn sylfaeni y cyfryw eiriau, dylid sylwi mai pechod o anniweirdeb y sonir am dano, yn yr adnod grybwylledig, sef, cael o un wraig ei dad; yr hwn bechod na enwir un waith ymysg y cenhedloedd. Gwelwn hefyd amcan Paul, sef, amddiffyn cymeriad yr Efengyl: "fel," meddai, "y byddo yr yspryd gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu." Yn nesaf crybwyllir geiriau Paul. 1 Tim. i. 20, sef, am Hymeneus ac Alecsander, "dywed Paul iddo "eu rhoddi i Satan, fel y dysgent na chablent."

Dylid sylwi etto, mai cabledd ar yr ordinhad santaidd, neu fel y geilw Paul hi, Swpper yr Arglwydd—dymma oedd pechod y rhai hyn. Nid oeddent yn iawn farnu corff yr Arglwydd, sef, nid oeddent yn deall ei natur na diben ei gosodiad, ond yr oeddent, yn ol defod y cenhedloedd—yr hon a gedwid ganddynt er coffadwriaeth am eu enwogion—yn ystyried mai cnawdol ydoedd, ac yn unig er porthi blysiau.

Awn rhag ein blaen i ymofyn pa fodd yr ymddygai Paul tuag at y rhai oeddent yn amrywio yn eu barn? Yr oedd y Corinthiaid yn amrywio mor bell fel ac oedd y naill yn dywedyd, "ei fod yn eiddo Paul ac arall yn eiddo Apollos, &c." Nis darfu iddo ei hesgymmuno; ond galwai hwynt yn "rhai bach yn Nghrist." Gwelwn hefyd y modd ag y mae Paul yn annerch y Galatiaid; iii. 1. Wele, ynte, Eglwys ag y geilw efe hwynt yn "ynfydion ac yn rhai oeddent anufydd i'r gwirionedd." Ond a roddes efe hwynt i Satan? Amlwg ydyw, naddo.

Tybiaf y gwel "Lleng" bellach nad ydyw ymddygiad y gymdeithas y perthynai iddi, yn deilwng o Grist a'r Efengyl; ond mai trais feddiant ydyw gan bawb a'i proffesant. Er cyssuro a diddanu "Lleng," dywedaf mai yspeilwyr oedd y gymdeithas y perthynai iddi; oblegid yr oeddent yn ymosod ar ei yspeilio ef o'i enedigaeth-fraint, fel Cristion; sef, o'i hawl i farnu trosto ei hun mewn pethau crefyddol.

Y mae ein Harglwyyd Iesu Grist yn caniattau'r hawl hon i bob dyn.—"Paham, ïe, o honoch chwi eich hunain na farnwch chwi yr hyn sydd ddo?" medd yr Iesu; "yr wyf yn llefaru wrthych megis wrth rai doethion, Barnwch chwi beth yr wyf yn ei ddywedyd," medd Paul. Ond dichon fod "Lleng" yn barod i ofyn—Pa bryd yr yspeiliwyd y Cristnogion o'r fraint oruchel hon? Attebaf; mai tua diwedd yr ail ganrif, pan ddatguddiwyd y "dyn pechod, mab y golledigaeth, yr hwn a eisteddai yn nheml Duw, ac a ddangosai ei hun mai Duw ydoedd;" trwy wneuthur ei hun yn ben a darostwng pawb o'i ddeiliaid i gydymffurfio a'i reolau ef, yn gystal mewn mater-

ion Eglwysig a phethau gwladol. A chofied y darllenydd, wrth ddangos anghymmeradwyaeth yr hawl a honnwyd a'r awdurdod a weinyddwyd gan Bab a Phabau, i fod miloedd o Gristionogion pur wedi eu ymddifadu o'u meddianau ac o'u bywydau. Ffieiddiwn yr egwyddor. Ystyrwyf ei bod yn fwy teilwng na "Lleng" o gael ei esgymmuno o Eglwysi y Saint.

Ond er gwneuthur chwareu teg a'r pabau bychain—y rhain, er dangos tebyg eu bod yn annibynol ar Grist a'r Apostolion, a haerant i fod ganddynt hwy, fel cymdeithas, hawl i wneuthur rheolau yn eu plith eu hunain. Ai ie, yn wir? Os gwir hyn, yr ydym yn rhwym o gredu fod ganddynt *awdurdod* hefyd i weinyddu y gosp a farner ganddynt hwy yn gyfiawn i bawb ag na fyddont yn cydymffurfio a'r cyfryw reolau a wneir ganddynt. Ond os ymddifad ydynt o'r awdurdod, nis gall meddiant o'r hawl fod yn un fraint oll. Ffto ni phroffesant eu hawdurdod. A phaham, ond yn unig er celu eu twyll!

Caniataer i mi ddywedyd, fy mod yn canfod mwy o gysondeb yn mhroffes yr hen dad, yn ei waith yn honni hawl i wneuthur rheolau, ac hefyd awdurdod i rwymo pawb wrth y cyfryw; ie, mwy o gysondeb, meddaf, nag y sydd yn mhlith y rhai a broffesant ymneilltuaeth oddiwrtho ef. Ac amlwg ydyw, pe byddai'r un hawl ac awdurdod gan y pabau bychain, mewn materion gwladol, ag a broffesant mewn pethau crefyddol, na fuasai'm rhan i a'm ysgrif ddim gwell na'r tân a'r ffagod.

Pa beth bynnag a ddel i'n rhan na ystyriwn yn ddyledswydd arnom i fod yn ddarostyngedig i unrhyw awdurdod mewn pethau crefyddol, ond yn unig i awdurdod gwirioncdd a rheswm.

Yr eiddoch, yn ostyngedig,

Ionawr 13, 1853. D. B., Pwlltrap.

FFYDD.

Gellir cyffelybu Ffydd y Cristion i gwmpas y morwr. Mor dlawd fyddai ar y morwr wrth forio y tonau geirwon, a'r gwyntoedd yn curo ar ei lestr bach, heb y cwmpas! Y mae weithiau yn nghanol yr ystorm frawychus, y gwyntoedd yn chwythu i'w erbyn, a'r tonnau yn curo o bob tu, ac yntau druan yn yr helbul, a phob gobaith, i olwg dynion, am fod yn gadwedig, wedi cael ei gymeryd ymaith oddiarno.

Ond er grym yr ystorm, a churfeydd y gwyntoedd, ac amlder y tonnau, rhyfedd fel y mae yn cael ei loni gan y cwmpas! Y mae hwn o hyd yn ddiysgog yn cyfeirio i'w ganol-bwynt, ac yn rhoi cyfleusdra teg i ddeall pa le y mae y porthladd, ac yn fantais fawr i ochel y creigydd, a chadw ei lestr rhag suddo a myned yn ysglyfaeth i'r tonnau geirwon.

Felly yn gywir y mae ar y Cristion; trwy ganol môr o drallodau y mae yntau yn hwylio tua'i wlad. Weithiau caiff ei amgylchu gan bob math o brofedigaethau trallodus, a'r rhai hyny fel dwyrain-wynt eryf yn ymosod i'w erbyn; yn y cyfamser bydd tonnau gofidiau yn curo arno, ac yntau yn nghanol y demhestl, ei awyr yn duo o'i gwmpas nes y bydd yn barod i waeddi—"I'r dyfnder yr af; i'r dyfnder yr af." Yn yr adeg gyfyng hon ar y Cristion, dyma Ffydd yn dyfod yn mlaen ac yn ymaflyd ynddo, bron yn ymyl anobaith, gan gyfeirio ei olwg o'r dyfnder mawr y mae ynddi, i ryw le draw, draw, tudraw i'r llen, ac yn dweyd wrtho—"A weli di Iesu, dy Dywysog cadarn sydd wedi gorchfygu dy elynion bob un, ac wedi dweyd

'Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd,' nes y bydd y Cristion yn barod i ganu wedi'n yn y gorthrymderau mwyaf, a'i nerth yn cael ei adnewyddu fel yr eryr eilwaith—O! mor rhagorol yw Ffydd yr Efengyl! Y mae hon fel rhyw long dramor yn cyrchu ei chyfoeth o wlad bell, yn dwyn mwyniant trgywyddoldeb i amser, ac, mewn ystyr, yn gwneyd y nef a'r ddaear yn un. Y mae y Cristion yn aml trwy ffydd yn canfod cyrau'r tir pell a'r Brenin yn ei degwch, ac yn gallu dweyd fel Paul—"Y mae arnaf chwant i'm datod a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw."

C-fn-c-d-y-c-m-r. CILSANYDD.

DARNAU O WAITH IOLO MORGANWG.

SALM LXXVI.—CYFROL CYNTAF.

[Dwy fraich yn eisiau yn yr Argraphiad cyntaf, 1812.]

Cyflwr yr Annuwiolion wedi marw.—Angladd, neu glyw am farwolaeth Dyn drwg, megis Brenhin drwg neu'r cyfryw.

LLE galwo Dduw'n ei gyfiawn wg—
O'i flaen i farn yr adyn drwg,
I dderbyn tâl am oll o'i waith,
Drwy gydol ei ddaearol daith;
Ystyriwn bawb pa beth a fydd,
O'r modd y treiliodd hwn ei ddydd,
Awr ddiwedd hwn dychrynllyd yw,
Yn arswyd i bob enaid byw;
Gorfodau blin ei gyflwr ef,
Dan gosp cyfiawnder mawr y nef.

Nid â dufewn i'r nefol fur,
Ond a fo'n lân, i'r eitha'n bur;
Y da dros fyth, bydd mawr eu braint
Lle da'n dragywydd [illegible];
Cânt bechaduriaid o bob rhyw
Eu gyrru 'mhell o deyrnas Duw;
A'u cadw, yn wrthodedig lu,
Dau rwymau'n y tywyllwch du;
Dau ofnau Barn, yn llin eu llef,
I'r eitha 'mhell o deyrnas nef.

EMYN XXII.

Diwedd yr Annuwiol.

Mi welais yr annuwiol ddyn,
Yn rhwyfo 'ngwŷn ei falchedd,
Fal wrth ei fodd, yn flaengar iawn,
Ag yn ei lawn ddigonedd.

Y bore'n uchel iawn ei frig,
Drwy'r goedwig yn ymdannu:
Byrr iawn ei ddydd, cyn gweled hwyr,
'Roedd wedi llwyr ddiflannu.

Edrychais ac yn graffus iawn,
Dan dyb y cawn ei weled;
Fal cysgod gwag o'm golwg i,
'Roedd hwnnw wedi myned.

Pa le mae'n awr, a'i ryfyg maith,
A'i erwin iaith yn chwyddo?
Mae'n ddim ym mhlith y llythrod mân,
Fe ddarfu'n lân am dano.

Fal hynn, O, Dduw! na foed i mi,
Fod hebot ti'n fy niwedd;
Mewn gobaith byw, rhoi 'mhen i lawr,
Wyf ar dy fawr drugaredd.

ENGLYNION.

ENGLYN I FRO AERON.

Bro lawn o bur lawenydd—oludog,
A deiliog ei dolydd,
Yw'r fro gain, erfawr ei gwydd;
Eirian lan Aeron lonydd.

D. T., *Ceredigion.*

I'R AWRLAIS.

Os codir fy mhwysau cadwaf—fy lle,
A fy llais a roddaf,
Hyd nos a dydd dweyd a wnaf,
A buddiol iawn y byddaf.

LL. M.

Y CEIRCH.

(Allan o'r Cylchgrawn).

Haerir bod y grawn hwn gwedi cael ei addasu at leoedd mwy gogleddol nag un grawn ŷd arall, am na ellir ei dyfu yn y gwledydd gwresog. Hyd y nod yn neheudir Lloegr, ar fanau uchel, y mae y cynnyrch yn waelach yn ei ansawdd nag a geir yn y parthau mwy gogleddol. O'r gwahanol rywogaethau o geirch, a drinir yn bresennol, y tebycaf i'r ceirch gwyllt ydyw y *blewgeirch*—ceirch coliog, yr hwn a welir yn uchel-diroedd Aberteifi. Yr unig beth sydd yn dda ynddo ydyw ei galedrwydd, yr hoddi cnwd cymmedrol lle na thyfai un grawn arall. Y mae yn llawer llai ei fri gyda'r tyddynwyr nag y bu unwaith; a daroganir y bydd yn fuan yn mhlith y pethau a aethant heibio. Er cyhyd ei wrychyn, a lleied maint ei rawn, dywedir bod y rhynion a geir o hono yn llawer mwy nag y gellid dysgwyl. Hwn hwyrach ydyw unig weddill ein ceirch cyntefig, ac ymborth cyffredin, os nad unig ŷd, ein tadau boreuaf.

Y ceirch nesaf yn ei hyndra ydyw yr *hen geirch dû*. Cynnyrcha yn dda ar y tiroedd uchel, ond prin y gwelir un amser yn y dyffrynoedd. Pwysa y rhyw goreu o hono tuag un pwys a deugain y mwysel. Tybir mai tir cryf oedd ei dir cynnwynol. Wrth ei hau yn aml ar diroedd sychion, dywedant y gwaethyga yn ei ansawdd, ac yn ei liw, nes dyfod yn debyg i geirch blewog Aberteifi. Dewisir y ceirch dû, yn gyffredin, at diroedd gwlybion; a'r ceirch gwynion at ddaear sych.

Dilynodd yr *hen geirch gwyn*; y mae hwn yn llawnach grawn na'r hen geirch dû, ond gofyna well tir; a phwysa a gwertha yn uwch. Hoffa y rhai sydd yn gwerthu blawd y ceirch hwn, nid gwell gan deithwyr y dû i'w ceffylau. Nid yw y peth olaf hwyrach onid mympwy—ychydig amser yn ol mynent y gwyn.

Bu y *ceirch coch* unwaith mewn cyfrif mawr gyda'r blawdwyr; pwysa ychwaneg na'r hen ryw, etto, anaml y meithrinir hwn yn awr.

Ond y rhyw goreu o geirch a gynnyrchir yn Mhrydain, yn ddiammau, ydyw *ceirch y cloron*. Canfyddwyd y planigion cyntaf o'r rhyw hwn yn tyfu yn ddamweiniol ar domen, yn nghyd â llawer o blanigion y cloron; ac oddiwrth yr amgylchiad hwn y derbyniodd yr enw. I'r dygwyddiad hwn yr ydym yn ddyledus am yr amrywiaeth goreu sydd genym o'r grawn defnyddiol hwn. Gofyna dir wedi ei drin yn dda; ac yna ceir y twysenau yn fawrion, a'r ŷd yn dew a chaled, yn fynych yn ddwbl; ac o ansawdd a ennilla bris uwch yn y farchnad na dim ceirch arall. Ei wellt hefyd sydd yn fwy defnyddiol. Ceirch y cloron ydyw, yn mron, yr unig geirch a heuir yn awr yn ngogledd Lloegr, a pharthau isaf yr Alban. Paham na ddilynai Cymru yr esiampl drwy ei holl ddyffrynoedd?

Mewn rhai manau uchel heuir rhywogaeth arall o geirch, a elwir *ceirch cynffon ceiliog*.

Y tymmor i hau ceirch sydd o ddechreu Mawrth i ganol Ebrill. Rhoddir o bedair i chwech mwysel o had i bob erw o dir. Ni ofynai tir a hinsawdd Môn gymmaint o had, pe byddai dull y Monwys o drin eu tir yn ychydig gwell. Ond er y cwbl, dyry rhai cnydau gymmaint ddeng waith ag a hauwyd, ac weithiau, lle y bydd y driniaeth yn well nag arferol, dyry y cynnyrch bymtheg waith swm yr hadyd. Ceirch a heuir gan mwyaf yn Meirion; ac yno torant ef gyda chrymanau, yn lle offeryn llawer gwell a hyrwyddach—y bladur. Yn Nyfed, oddieithr yn y bryniau, y mae llai o feithrin ceirch nag a fu. Yn y dyffrynoedd goreu ni hauant geirch ar un cyfrif; prynant yr hyn a fydd arnynt eisieu gan eu cymmydogion.

Metha Saeson a Chymry swydd Benfro gytuno a'u gilydd yn nghylch y budd o hau ceirch. Dyweda y Saeson bod gormod o'r grawn hwn yn cael ei feithrin. Ateba y Cymry—Na. Fel cnwd cyntaf y maent yn barotöad at fracnar gwenith, ac yn lleihau y drafferth o'i drin; ac fel cnwd olaf, y mae ceirch yn well na haidd i droi y tir yn las. Ei wellt sydd fwyd i wartheg, a'i rawn sydd ran arbenig o ymhorth dynion Cymreig, a cheffylau Seisnig.* Y mae blawd ceirch etto, gwedi ei drin mewn gwahanol ddull, yn parhau yn brif gynnaliaeth trigolion mynyddoedd Cymru,

* Rev. W. Davies's Survey of South Wales, Vol. I. 477.

a phreswylwyr yr Alban, a swyddi Efrog a Lancaster. Yn Nghymru dangosir llawer o gywreinrwydd yn y modd a arferir i wneuthur amrywiol ddysgleidiau o'r blawd. Yn fynyehaf gwneir ef yn fara crin, ac yn fara surgeirch; gwneir ef yn üwd, yn llymry, yn siot, ac yn frwchan. Yr un neu gyffelyb barotoadau o hono a ant weithiau dan yr enwau bwdram, sucan, ac üwd sugaethan. Ystyrir pob darpariaeth o hono yn ymborth blasus a llesol.

CYMDEITHASAU DIOGELIAD BYWYD.

(*Life Assurance Societies*).

Dymunaf alw sylw darllenwyr yr *Ymofynydd* at yr anghenrheidrwydd o ddiogelu eu bywydau. Mae yn syndod, ynghwyneb y manteision a gynnygir, fod mor lleied wedi ymunaw â'r cymdeithasau gwerthfawr hyn. Ymddengys nad oes dim mwy nag un pen teulu o bob hanner cant yn Nghymru wedi diogelu ei fywyd! Ond tebygol fod hyn i'w briodoli yn fwy i'r ffaith, nad yw y Cymry yn wybodus o egwyddorion a diben Cymdeithasau Diogeliad Bywyd, a'r manteision a gynnygant, nac i ddifaterwch am les dyfodol eu teuluoedd.

Un o brif ddyledswyddau pob dyn rhesymol, yw darparu ar gyfer ei weddw a'i blant, pan fyddo efwedi ei guddio yn y bedd. 'Does gan neb o honom sicrwydd y byddwn fyw blwyddyn i heddyw; dylem gan hynny wneud y fath ddarbodaeth ar gyfer ein teuluoedd, fel na fydd arnynt eisiau hyd y nod pe byddai i angau ein goddiweddyd yn ddisymwth. Pa faint sydd yn gwaeo dydd eu genedigaeth ag a allai fod mewn sefyllfaoedd cysurus, pe byddai eu rhieni wedi diogelu eu bywydau. Mae cannoedd heddyw yn byw ar gost y plwyf, neu garedigrwydd perthynasau, ag oedd ychydig flynyddau yn ol yn mwynhau pob cysur a mantais dymunol; ac ereill wedi eu cadw rhag y fath ddrygfyd trwy ofal dyngarol eu tad a'u priod.

Dylai ystyriaeth o'r pethau hyn gymhell pawb i wneud y gorchwyl pwysig hwn yn ddioed. Mae rheswm, crefydd, a dynoliaeth yn gofyn hyn oddiwrthym.

Un o'r cymdeithasau hyn yw y "*London Mutual Life and Guarantee Society*," hysbysiad pa un sydd ar amlen yr *Ymofynydd*. Y mae yn un o'r rhai mwyaf llwyddianus a sefydlwyd erioed, ac yn deilwng o gefnogaeth ac ymddiried y cyhoedd. Un o'i rhagoriaethau penaf yw, fod yr *holl elw* yn cael ei ranu pob tair blynedd rhwng yr aelodau; a thebygol y bydd yr elw yn fawr. Rhoddaf ychydig o enghreifftiau fel y dangosir cymmeriad y cymdeithasau hyn yn fwy eglur.

Trwy dalu £4 4s bob blwyddyn gall dyn 25 oed adael £200 i'w weddw a'i blant, pe byddai farw drannoeth wedi talu y taliad cyntaf. Trwy dalu swllt yr wythnos, gall dyn 32 oed sicrhau £100 i'w deulu ar ol ei farwolaeth.

Pe byddai gwr a gwraig, un yn 25 a'r llall yn 30 oed, yn dewis sicrhau £100 i'r un fyddai byw ar farwolaeth y llall, gallent wneud hynny trwy dalu £3 10s. 3d. yn flynyddol.

Gallai priod, 30 oed, ddiogelu i'w wraig o'r un oed £20 bob blwyddyn y byddai hi fyw ar ei ol ef, trwy dal blynyddol o £4 17s.

Gallai dyn ieuange, 25 oed, sicrhau £20 y flwyddyn iddo ei hun, tra byddo byw ar ol cyrhaedd 60 oed, trwy dal blynyddol o £1 15s. 10d.

Hawdd fyddai amlhau enghreifftiau; ond mae y rhai a roddwyd yn ddigon i ddangos egwyddor a dyben y Cymdeithasau hyn; a gwelir hefyd ei fod o fewn cyrhaedd pob dyn mewn iechyd i wneud darpariaeth ar gyfer ei deulu.

Dyddan fydd genyf roddi pob hyfforddiad angenrheidiol, er diogelu bywydau, i'r sawl a ysgrifenant attaf.

14, *Northampton Place, Abertawe.* David Evans.

Cyfrwysder.—Cyfrwysder sydd ddoethineb gwyrgam: nid oes dim yn fwy niweidiol na bod dynion cyfrwys yn cael eu cymmeryd yn lle doethion.

Y DRINDOD.

Mr. Golygydd,—Clywais y pennillion canlynol ar y "Drindod," yn cael eu hadrodd gan gyfaill, ac ysgrifenais hwynt; a meddyliais eu bod yn meddu llawer o deilyngdod, beth bynag. Y mae llawer o ddweyd wedi bod, ac yn bod, ac i fod (gobeithiaf) yn erbyn athrawiaeth y Drindod, ynghylch yr anghysondeb, y gwrthuni, a'r ammhosiblrwydd, sydd yn perthyn iddi; ac nad yw ond anwiredd noeth a phendant i'r hwn sydd yn gosod ei ddeall ar waith i farnu beth yw cyweirdeb rhwng un peth a'r llall. Y mae lle i gredu bod yr hen athrawiaeth yn colli tir yn rhwydd ym mhlith ieuengctyd yr oes, a dynion yn diosg o dan yr aden, ac yn dyfod i farnu drostynt eu hunain—beth ydyw'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Bernir y rhydd y pennillion canlynol gomad bach iddi; ac os gwelweh hwynt yn deilwng o le yn yr *Ymofynydd*, dyma hwynt at eich gwasanaeth.

Yr eiddoch, &c.
John Jones,
(Eiddil Glan Cynon).

Aberdár.
Ionawr 16, 1853.

I'R DRINDOD.

"Mae 'Ffeiriad yn y Blaenau,
'N brygawthan ei bregethau:
Mae e'n taeru'n groch ci gri,
Fod ganddo dri o Dduwiau.

Y cyntaf sy'n Etholwr,
Yr ail, sydd yn Bryniawdwr,
Y trydydd, sydd yn pur lanhau,
Yn torri iau'r troseddwr.

Mi dd'wedais yn fy ffwdan,
Nad awn i byth i'w corlan,
Rhag iddynt fyn'd i rhyfel gas,
Am fraint neu urddas gyfan.

Mae'n amlwg i'r llygeidiog,
Lle byddo tri coronog;
Na phery'r heddwch ennyd awr,
Heb ryfel mawr a llidiog.

Peth rhyfedd fod athrawon,
Am dri o Dragwyddolion,
A'r 'sgrythyr lân, a deall dyn,
Yn dweyd fod un yn ddigon."

William o'r Aber, a'i Cânt

Hanesion Cartrefol a Thramor.

GWEINYDDIAETH ARGLWYDD ABERDEEN.

Y mae yr aelodau hyny o'r Weinyddiaeth Newydd ag oeddent hefyd yn aelodau o Dŷ y Cyffredin, wedi cael eu dychwelyd am y gwahanol lefydd y cynrychiolent, oll bellach, oddieithr Mr. Sadleir, yr hwn, o ychydig bach, a gollodd ei le am Carlow. Costiodd i Mr. Gladstone frwydr hirfaeth cyn iddo gael ei ad-ddewis gan Brif-athrofa Rhydychain. Nid oedd ei gyd-ymgeisydd, Mr. Percival, yn wr o un enwogrwydd. Ond yr oedd y gwrthwynebiad a brofodd Mr. Gladstone, ar ran rhyw gyfran o'r aelodau, mor benderfynol ag yr oedd yn bossibl. Parhawyd yr etholiad o ddydd i ddydd am 15 diwrnod —cymaint oedd y gelyniaeth yn ei erbyn am iddo gymeryd swydd yn yr un weinyddiaeth â *Whigs* a *Radicals*. Nid yw y fath amgylchiad wedi enill un clod i'r Brif-athrofa gyda'r wlad yn gyffredin. Yn fuan wedi y 10fed o Chwefror, diau y rhoddir cyfleustra i brofi nerth neu wendid y Weinyddiaeth newydd. Nid oes nemawr o ddal ar yr hyn sy'n cael ei sisial yn y Newyddiaduron; ond ceir gweled pryd hyny pa fesurau a gynnygir gan y rhai a droesant allan Derby a Disraeli, ynghyd â pha welliant ar y drefn o drethu'r wlad, a'r gynrychiolaeth.

PRIF-ATHROFA LLUNDAIN.

Y mae yn wybyddus i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr fod y Brif-athrofa hon (*London University*) wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei chynnal ar egwyddorion rhydd. Nid ydyw, fel Rhydychain a Chambridge, yn gofyn bod ei haelodau yn Eglwyswyr, neu i ar-dystio eu bod yn credu y namyn un deugain erthygl, y rhai a welir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, nac unrhyw erthyglau crefyddol eraill. Y mae amryw o'r Colegau Ymneillduol mewn cysylltiad â hi, un Caerfyrddin er siampl; a thrwy hyny y mae y ffordd yn agored i fyfyrwyr ieuainge o Ymneillduwyr ennill y teitlau amrhydeddus o B.A. ac M.A. os yr ewyllysiant ac os

gallant. Ymneillduwyr a chyfeillion Rhyddid crefyddol, yn bennaf, sydd yn ei phleidio ac yn gwneuthur defnydd o'i manteision: ac nid rhyfedd; am nad oes un Brif-athrofa arall yn Lloegr yn agored i Ymneillduwyr.

Ac yn awr y mae'r Brif-athrofa hon yn cynnwys rhai cannoedd bellach o aelodau graddedig. Ac y mae'r aelodau hyn, neu y rhan fwyaf o honynt yn benderfynol i geisio gan y Senedd i'w gosod mewn meddiant o'r un hawl-fraint, o barthed i'r gynrychiolaeth Seneddol, â graddedigion Prif-athrofeydd Rhydychain, Cambridge, a Dublin: sef ydyw, yr hawl i ddewis aelod i'w cynrychioli yn y Senedd. Gwneir y cynnygiad yn fuan iawn wedi ail-gyfarfod o'r Senedd. Y maent wedi anfon at eu ewyllyswyr da, yr Ymneillduwyr yn bennaf, trwy Gymru a Lloegr, i ddeisyf eu cydymdeimlad a'u cymmorth trwy anfon deisebau (*petitions*) i'r perwyl i Dŷ y Cyffredin, gan roddi hefyd ffurf o *betition* yn barod, fel na byddo rhwystr ar ffordd neb a ewyllysio roddi llaw o gymmorth iddynt. Dichon na ddengys y Cymry unrhyw gydymdeimlad dwys ar y cwestiwn. Yr y'm yn cael y gair o fod hanner can mlynedd ar ol ein brodyr Seisnig. Gan nad beth am hyny, bydd y cynnygiad yn debyg o gael ei wrthwynebu hyd yr eithaf gan y corff o Eglwyswyr a'u Hoffeiriaid. Nid yw yr amser wedi dyfod i ben etto, pan y gellir disgwyl i'r Esgobyddion ymfoddloni ar fod Prif-athrofa rydd i gael meddu yr un ragorfraint, o ran y gynrychiolaeth, a'u Prif-athrofeydd cyfyngedig hwynt. Y mae'r wlad newydd gael gweled pa ysbryd sy'n llywodraethu aelodau Prif-athrofa Rhydychain. Ac nid oes le i amheu nas byddai aelodau Prif-athrofa Llundain, pe y caniateid yr hawl-fraint iddynt, mor debyg â neb i ddewis cynrychiolydd cymmwys—un a fyddai yn bleidiwr rhyddid gwladol a chrefyddol.

AUR I'R BANK OF ENGLAND.

Dydd Llun, y 17eg o Ionawr, derbyniwyd i'r Bank y swm mwyaf o aur a dderbyniwyd yno erioed—tua 10 tunnell o bwysau—yr hyn a ddygwyd drosodd yn y llong *Awstralian*. Y mae yn sicr y bydd i amlder cynnyddol y mettel gwerthfawr hwn, beri cyfnewidiad ychwanegol ar brisoedd nwyfau a gwaith, a threfnidaeth y wlad yn gyffredinol. Nid ydyw etto wedi effeithio nemawr ar brisoedd y *Funds*.

FFRAINGC—PRIODAS YR EMPRWR.

Y mae yr Emprwr o'r diwedd wedi rhoddi i fynu ei fwriad a'i ymgais i gael cydmares o blith y teuluoedd Brenhinawl. Y mae wedi gosod ei serch a'i fryd ar Mademoiselle Montijo, boneddiges o'r Ysbaen, ac y mae wedi hysbysu i'w Gynghor ac yn gyhoeddus ei benderfyniad i'w phriodi. Cymmer y briodas le ar fyr iawn. Yr ydys eisioes wedi gwneud trefniadau tuag at wneuthur sefydliad ei Llŷs yn addurnedig ac anrhydeddus i'r eithaf, fel y gweddai i Ymerodres y Ffrangcod. Ond y mae y *Funds* Ffrengig wedi cwympo yn ddirfawr; yr hyn sydd arwydd o wan ymddiried y wlad yn llywodraeth Napoleon III.

YR INDIA ORLLEWINOL.

Mae'r newyddion a dderbyniwyd o'r amrywiol Ynysoedd yn yr India Orllewinol yn anffafriol dros ben. Y mae'r dwymyn felen (*yellow fever*) wedi bod yn gwneuthur difrod aruthr yn y tiriogaethau hyny. Yn y *Dauntless*, llong ei Mawrhydi, yr hon sydd yn gorwedd yn *Barbadoes*, y mae 16 o'i swyddogion (*officers*) a thros 60 o'r gwŷr wedi marw o'r plà; ac yr oedd y dinystr yn myned ar gynnydd pan yr ymadawodd y *Magdalena* a'r lle.

GWLEDYDD YR AUR.

Y mae yr *Overland Mail* wedi dwyn newyddion lled ddiweddar o'r trefedigaethau Awstraliaidd. Y maent yn cynnwys adroddiad amryw o ddigwyddiadau, o ba rai buasai pob un, mewn amseroedd cyffredin, yn cael ei ystyried yn darawiadol a rhyfeddol. Aeth yr agerdd-long fawr, y *Great Britain*, gyda'i llwyth o fywydolion, drosodd o Lundain i Melbourne mewn 83 diwrnod. Gwnaeth y *Formosa* ei mordaith yn ddiogel, y cyntaf a effeithiwyd o Awstralia i Ceylon, dros gefnfor gerwin ac anhygyrch. Darganfyddwyd mwn aur yn *New Zealand*. Y mae trefedigaeth Deheudir Cymru Newydd (*New South Wales*) yn parotoi cyfansoddiad gwladwriaethol iddynt eu huuain; ac yr ydys wedi agor Prif-athrofa (*University*) yno.

Y newyddion ar y cyfan ydynt dra boddhaol; er bod rhai pethau ag y gellid dymuno iddynt fod yn wahanol. Y mae'r hysbysiadau a geir o'r gwahanol fwn-gloddiau yn parhau i fod yn ffafriol dros ben. Y mae yn gwbl amhosibl i ni eu cynnwys o fewn i'r terfynau a ganiateir yn y Rhifyn hwn. Y mae yn syndod i feddwl fod cymmaint a £2,720,000 o aur wedi cael ei anfon drosodd mewn llongau o Sydney yn unig; ac y bydd, ymhen ychydig wythnosau, *tair miliwn* wedi dyfod hyd attom o'r drefedigaeth honno.

Dichon y bydd yr adroddiad canlynol o'r cyflogau, &c., a roddir i weithwyr yn Sydney yn dderbyniol i'n darllenwyr. Rhoddir ef ar awdurdod y *Sydney Morning Herald*:—

Seiri meini, y dydd, o 8s. i 8s. 6c. Seiri coed a chelfi, o 7s. i 9s. Seiri priddfeini, o

8s. i 8s. 6c. Gweithwyr gyda seiri meini, &c, 7s. Gweithwyr cyffredin gydag adeiladau, o 5s i 6s. Cymrydwyr (*plasterers*) o 8s. i 9s. Arliwyddion a gwydrwyr, o 8s. 6d. i 9s. Blaenoriaid ac arolygwyr mewn adeiladau, o 10s. 6c. i 15s. Llifwyr, 12s. y 100 troedfedd am goed tyner. Priddfeinwyr, o 18s. i 20s. y 1000, am y gwaith o'u llunio, eu gosod, a'u llosgi yn unig. Gyrwyr certi, o 15s. i 20s. Y rhai blaenorol ydyw y celfyddydwyr a'r gweithwyr ydynt angenrheidiol yn benaf wrth adeiladau.—Yna y mae yn myned yn mlaen i nodi cyflogau celfyddydwyr ereill yn Sydney:—Pres-doddwyr, o 9s. i 12s. Haiarn-doddwyr, o 9s. i 10s. Peirianwyr a seiri melinau, o 10s i 15s. Melinwyr, o 10s. i 15s. Sciri llongau, o 12s. 6d. i 15s. Gweithwyr alcam, o 9s. i 10s. Orioryddion, o 10s. i 20s. Gofaint, o 8s. i 10s. Seiri cerbydau, o 9s. i 12s. Cylchlestrwyr, 10s 6d. Dodrefnwyr, o 10s. 6d. i 12s. Dilledyddion, y radd flaenaf, 10s.; yr ail radd, o 7s. 6d. i 9s.; trydydd-gradd, o 5s. i 6s. Cludyddion i ystordai, £1 yr wythnos gydag ymborth a lletty. Cryddion, wrth y darn, sydd yn gwneuthur yn dda. Cigyddion, o 8s. i 10s. 6d. Pobyddion, o 9s. i 12s. 6d. Garddwyr (mewn tref) 6s. Cysodwyr, 12s. Argraffwasgwyr, 12s. Y mae y cysodwyr a'r argraffwasgwyr yn cael 1s.6d. yr awr am yr oriau dros amser. Ar y Newyddiaduron boreuol, gwneir y gwaith gan mwyaf wrth y darn. Y pris am y *Brevier*, yw 1s. 3s. y fil; am y *Nonpareil*, 1s. 6d.

Yn y dospathau gwledig telir y cyflogau canlynol yn awr; gan fod yr anhawsdra mawr sydd i gael gweithwyr yn Sydney yn fwy fyth yn y parthau amaethyddol a bugeilaidd.

Bugeiliaid, dynion sengl, o £20 i £30 y flwyddyn a'u dognau. Dynion priod, o £35 i £42, gyda dognau. Gweithwyr amaethyddawl, o £26 i £35, a'u cynaliaeth. Garddwyr, o £35 i £42, eto. Arddwyr, o £30 i £39, eto. Gweision tŷ, o £26 i £32. Merched o ymddygiad da a gant dderbyniad parod yn mhob rhan o'r wlad. Gwniadydd esau da sydd yn enill o £1 15s. i £2 2s. yr wythnos. Morwynion tŷ, o £14 i £30 y flwyddyn.

CYNYGIAD AT GAEL GWEFRHYSBYSAI RHWNG PRYDAIN FAWR A'R UNOL DALEITHIAU.

Y mae cynllun ar droed dros gael gwefrhysbysai (*electric telegraph*) o dan y dwfr rhwng Prydain Fawr a'r Amerig. Cynygir cychwyn yn y parth mwyaf gogleddol o Ysgotland, gan redeg i'r Orkney Islands, ac oddiyno drwy y dwfr i'r Shetland a Faroe. Yna llinell drwy y dwfr o 200 neu 300 o filldiroedd i gario yr hysbysai i Iceland; a chael llinell i'w gludo o arfordir gorllewinol Iceland i Kioge Bay, ac arfordir dwyreiniol Greenland; y mae efe wedi hyny i groesi Greenland i Julian's Hope, ar du gorllewinol y cyfandir hwnw yn 60 deg. a 42 min., ac y mae wedi hyny i gael ei gludo trwy y dwfr am 50 milldir ar draws Davis's Straits i Byron's Bay, ar arfordir Labrador. Y mae y llinell i gael ei hestyn o'r pwynt yma i Quebec. Bernir y bydd y llinell yn ddwy fil a phum cant o filldiroedd, a'r rhan forol o honi o bedwar cant ar ddeg i un cant ar bymtheg o filldiroedd. Y mae un fantais neilldiol yn perthyn i'r llinell, drwy ei bod yn cael ei rhanu yn wahanol ranau fel hyn, sef, y bydd yn hawdd gwella, gyda ychydig o draul, ac yn fuan, unrhyw niwed a gaffo. Bwriedir cario cainc o'r Shetland Islands i Bergen yn Norway, gan ei chysylltu a llinell i Christiana, Stockholm, Gottenburg, a Copenhagen; gellir cael llinell yn hawdd o Stockholm ar draws y Gulf of Bothnia i St. Petersburgh. Y mae holl draul y peth mawr hwn yn cael ei osod islaw pum can mil o bunau.

LLINELLAU Y GWEFRHYSBYSAI.

Y mae llinellau y gwefrhysbysai (*electric telegraphs*) drwy y byd, oedd wedi eu gorphen ac oedd ar waith hyd 1853, yn cyrhaedd yn agos i 40,000 o filldiroedd. Yr oedd o'r swm yma agos i 4,000 yn Mrydain Fawr, heb ond 100 milldir o dan ddaear, yn nghyd ag oddeutu 400 neu 500 o filldiroedd yn cael eu gwneyd yn Lloegr ac Ysgotland, a llawer mwy mewn golwg. Y mae 20,000 o filldiroedd o wefrhysbysai yn Amerig wedi eu gorphen, ac mewn gwaith, ac y mae 10,000 o filldiroedd yn rhagor yn cael eu gwneyd yno, gan uno mewn un rhwydwaith ddinasoedd yr Unol Daleithiau, yr Atlantic a'r Moroedd Tawel, a pharthau pellaf y Cyfandir mawr hwnw. Yr oedd yn Ewrop oddeutu 11,000 neu 12,000 o filldiroedd o wefrhysbysai mewn gweithrediad a chynifer arall mewn golwg neu wedi cychwyn. Y mae 3,000 o filldiroedd wedi eu gorphen yn Germany, yn Awstria 3,000, ac yn Prussia rhwng 3,000 a 4,000 o filldiroedd. Y mae Ffraingc, yr hon oedd hyd yn ddiweddar ar ol, yn helaethu ei llinellau gwefrhysbysol yn mhob cyfeiriad; nid ydyw ei milldiroedd yn bresennol ond ychydig mewn cydmaraeth i wledydd ereill. Ei phrif drosglwyddiadau sydd, yn bresenol, rhwng Llundain a Paris, Strasburg, a Marseilles. Y mae Russia newydd ddechreu ei threfniant gwefrhysbysol rhwng St. Petersburgh, Moscow, a Cracow, a phorladdoedd y Baltic a'r Môr Du. Mewn ychwanegiad at ei llinell rhwng

Naples a Gaeta, y mae Italy yn parhau llinell Naples o Serracina i Rufain, fel ag i ymuno a'r llinellau perthynol i Upper Italy. Y mae gan Denmark tua 400 o filldiroedd o wefrhysbysai. Y mae llinell Belgium 500, a'r lseldiroedd, newydd ei gorphen o Amsterdam i Hague. Y mae tua 4,000 o filldiroedd i gael eu gwneud yn India. Mae Switzerland am gael yr hysbysai yn fuan, ac ni fydd i'w gweled ar y map yn mhen ychydig ond Awstralia, Affrig, a China, hebddo.

Marwolaethau.

Rhagfyr 23, yn 17 mlwydd oed, Miss Jane Jones, merch y diweddar D. Jones, Ysw., Gelli-fa-haren, Llandysul, Ceredigion; ac ór-wyr i'r diweddar hybarchus D. Davis, o Gastell Hywell—gan adael mam dirion, dau frawd a chwaer, a pherthynasau anwyl i alaru ar ei hol. Yr oedd y ferch ieuanc hon, gyda golwg ar amryw rinweddau, yn esiampl teilwng i'w efelychu gan ei chyfoedion. Gallasai—yn ol disgwyliadau cyffredin—yn naturiol edrych ymlaen am sefyllfa anrhydeddus mewn bywyd, a chyfraa helaeth o dda'r byd hwn; ond ymdrechu am gynnydd mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth a gwneuthur daioni, oedd ei hoffwaith hi. "Gellid darllen tueddfryd ei holl enaid a'i chwaeth dda," medd ein gohebydd, "oddiwrth ei hysgrifeniadau hi,detholedig o amryw awdwyr. A gellid casglu oddiwrth hanes ei hymddygiad yn gyffredinol gartref ac oddicartref, pa beth yr ydoedd ac i ba beth yr oedd yn aeddfedu." Ei hymarweddiad duwiol a phrydferth a goronai ei character. Bu farw yn *Bradford, Wiltshire*, lle yr oedd yn yr ysgol. Diau "mai da iawn fyddai pe bae mwy o'i bâth yn y byd—fel un a broffesodd grefydd yn foreu yn Llwynrhydowen, ac a harddodd y grefydd hyny—er esiampl i ni gyd. Yr oedd ei symlrwydd a'i gweddeidd-dra yn nghyd a'i hymddygiad caruaidd gwedi tynnu sylw plant Tref Bradford, pa rai oeddent wedi cael prawf o'i chareiddiwch yn ei gwaith yn rhoddi yn awr ac eilwaith iddynt lyfrau bychain, tueddol i'w harwain i welliant moesol, &c. Er tystiolaeth o'u parch tuag atti, galarent ar ei hol yn fawr iawn, wedi iddyut glywed am ei marwolaeth." "Testun a gyfeiriai atto yn fynych," meddai Mrs. Hadden, ei hysgol-feistress, oedd "'Bydd barod i gyfarfod a'th Dduw,' ac nid oes dadl nad oedd hi yn barod. Aeth ei haul hi i iawr cyn hanner dydd; ond i godi yn ddisgleiriach yn erbyn y borau mawr. Terfynodd ei bywyd yn gynnar mewn gwir obaith am un o fythol barhad. Cauodd ei llygaid am byth yma, i'w hagor am byth yr ochr draw i derfyngylch amser, yn meddiannu ar ieuenctyd anfarwol.—G.

Ion. 15ed, yn 71 mlwydd oed, y Parch. David John, gynt o Saint Clears, yn Sir Gaerfyrddin, a chwedi hyny o Ferthyr Tydfil, lle y gorphenodd ei yrfa ddaearol, a lle y buasai am fwy nag ugain mlynedd yn weinidog i'r gynulleidfa Undodaidd sydd yn cyfarfod ar Dwyn-yr-odin. Yr ydoedd er ys rhai blynyddau wedi rhoddi i fynu y weinidagaeth; ac yn anfynych y caniatai ei iechyd, neu yn hytrach ei afiechyd, iddo fyned allan o'i dŷ. Dioddefai ei gystudd yn dawel ac yn amyneddgar. Ar ddydd ei gladdedigaeth cafwyd gweled fod dylanwad ei garacter a'i alluoedd, a'i ymddiddanion, wedi cyrhaedd yn mhell ac yn ddwfn ar feddyliau trigolion y dref a'r gymydogaeth. Clywsom fod miloedd lawer yn ei hebrwng i dŷ ei hir gartref, yn monwent Hen Dŷ Cwrdd y Cefn. Pregethwyd yn gymmwysiadol ar yr achlysur gan ei ganlyniedydd yn y weinidogaeth, y Parch. G. Lunn.

Yr ydym wedi aros hyd yr awr olaf gan ddisgwyl derbyn byr gofiant o'n hen gyfaill parchus a charedig. Barnwn y byddai, ar amryw ystyriaethau, yn fuddiol ac yn dderbyniol i'n darllenwyr. Gobeithio y'n galluogir ni i'w roddi yn y Rhifyn nesaf.

Gofyniad.

Mr. Gol.—Gobeithiwyf fod yr *Ymofynydd* yr un mor agored yn awr ag ydyw yn arferol o fod, pan y byddo rhyw un a chwant arno gael eglurhad ar ryw ran o'r Ysgrythyr a fyddo yn ddyrus ac yn dywyll i'r meddwl dynol gael gafael yn y iawn sylwedd o hono, a pheth ddylai fod gwir ystyr y geiriau.

Ffelly gyda golwg ar y gofyniad hwn, y mae yn ddyrus i fy meddwl i, a llawer un arall, ond odid ,fawr; sef, 1 Ioan v. 16, fel y canlyn—"Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid *yw* i farwolaeth, efe a ddeisyf, ac efe a rydd iddo fywyd, i'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth. Y mae pechod i farwolaeth; nid am hwnnw yr wyf yn dywedyd ar ddeisyf o hono." Y gofyniad yw, "Pwy bechod nad yw i farwolaeth, a phwy bechod sydd i farwolaeth," ag y mae yr Apostol yn son am dano yn y geiriau uchod? Gobeithiaf y cymmerwch chwi, Mr. Gol., neu rhyw un arall, y gorchwyl mewn llaw o roddi esboniad a goleuni rhesymol ac ysgrythyrol ar y geiriau uchod,—beth yw eu gwir ystyr, ynghyd a meddwl yr Apostol. Os bydd rhyw un cyn carediced ag ymdrechu atteb y cais uchod, efe a lwyr foddlona llawer, heblaw

Disgwylydd yr Atteb.

Ger Cwm Shan.

Barddoniaeth.

DYLEDSWYDD YR IEUANC TUAG AT YR HEN.

A ysgrifenwyd erbyn Gwyl Flynyddol Cyfrinfa Caswallon, o Urdd yr Alffrediaid Ffyddlon.

Ton—"Y Gelynen."

CHWYCHWI Ieuenctyd hardd eich gwedd,
Sydd heddyw 'ngwledd flynyddol—
Cyfrinfa'r "Carw," Aberdâr,
Mewn cwlwn cariad brawdol;
'Rol mwynhau gwisgoedd uchel bris,
A phorthi blys corphorol,
Mae'n gweddu inni bawb mewn hedd,
Gael etto wledd Feddyliol.

Gan hynny ennyd rhoddwch oll,
Ddwys glust heb goll i geraint,
A gais ystyried nawr er bri,
'N dyledswydd ni i'r henaint;
Mae'r henaint gwedi profi pwys,
Helbulon dwys a chwerw,
Fal gallont ein hyfforddi ni,
Rhag gofid i ymgadw.

Fy nghyd-ieuenctyd, er ein clod,
Gochelwn fod yn gecrus,
Na chwaith ymddwyn mewn dim yn swrth,
Un amser, wrth oedranus;
Nid 'n unig parchu ar bob cam,
Eich tad a'ch mam a ddylech,
Ond hefyd pawb oedranus rai,
Bob man a'u cyfarfyddech.

Pan weloch henwr penllwyd gwan,
Yn hwyrdrwm ac anffurfiol,
O! byth na wawdiwch gyda ffrost,
Ond byddwch dra thosturiol;
Er mor fethedig heddyw ynt,
Hwy fuont gynt yn hoyw-wedd,
A'u hailfabandod eilw am—
Ein cariad a'n amgeledd.

'Nawr er eu bod yn llesg a llwm,
A chefn crwm a charpiog,
Geill fod ar gof n'y *pen* fawr 'stor
O addysg gor-ardderchog;
Gan hynny'r ieuanc feddwl brwd,
Hyf iachus ffrwd dwys brofiad,
A red o fynwes henaint llon,
Er nawdd i'th galon lwysfad.

Gwyn fyd yr ieuanc roddo'n ddoeth,
Ei bwys ar goeth gynghorion,
Henafgwyr mwyn o brofiad maith,
Rhag gwneuthur gwaith ynfydion!
Y sawl a wrendy ac a wna—
Yr hyn a ddweda Henaint,
Bydd hwn yn ddiogel coeliwch chwi,
Rhag erchyll ddioddefaint.

Awst, 1849. G. F.

CAN AR FACHLUD YR HAUL.

TON—"*Merch Megan.*"

O'r huan, deg araul, Ti frenin y gwagle!
I b'le'r aeth dy drigfa ar gyfnod yr hwyr?
Ai cilio o'r golwg 'wne'st, haulwen fwyn hyfryd,
I orphwys am enyd; 'oes rhyw un a ŵyr?
Y tesawg belydrau a deimlwyd yn lloni,
Pob peth sy'n trigfanu tir Gwalia dêg wen,
'Giliasant dros aelau'r gorllewin—glogwyni:
Aent ffwrdd ar ehedeg i ddyfnder y Nen.

Y blodau arianliw, mor loyw ar lenydd,
'Amwigent ein meusydd a'n dolydd mwyn têr,
Ymroddant i orphwys ar wlithog obenydd,
Nes caffont ddydd newydd, trwy nodded ein Nêr.
Yr adar ddatganant eu hwyrawl ganiadau,
Gan dynnu i'w teiau dan gysgod y dail;
Y brain, wrth y cannoedd, a ffônt o'r mynyddau,
I'w nosawl glŷd-fanau 'nol machlud yr Haul.

Yr ychain banerawg borasent y glas-fryn,
A lechant 'n y dyffryn ar derfyn y dydd;
A'r wybr oedd ginau mor serchus, yn sydain,
A drodd ar fro Brydain i edrych yn brudd.
Pan gollais fy ngolwg ar dad y goleuni,
Ow! Ow! dyma'r gwaeddi, "Rhaid gadael y gwaith,
Fel byddo i natur gael etto ddadebru;
Mae'r nos yn dynesu; fe'n gesyd yn gaeth."

Aberdâr. CARW COCH, Heol-y-felin.

At ein Gohebwyr.

DERBYNIWYD.—*T. Stephens; J. Jones; D. Evans; D. Beynon; Anwybodus; Carw Coch; T. G.; E.; ac E. Glancynon.*

E.—"*Y Sylwadau Ychwanegol ar Heb.* ix. 5," *yn ein nesaf.*

Ifor Cwm Gwys.—Gwneler y Cofiant yn fyrach.—Caiff y Gân ymddangos ar fyr iawn.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.